

# CALEDI, CYFOETH AC ANNIDDIGRWYDD 1951–1979

## *Rhan 3: “Pleidiol wyf i’m gwlad” - materion gwleidyddol ac economaidd yng Nghymru yn yr 1960au a’r 1970au<sup>1</sup>*



**Ffynhonnell 1:** Gwynfor Evans, arweinydd Plaid Cymru'n protestio yn agoriad cronfa Tryweryn <sup>2</sup>

<sup>1</sup> “Pleidiol wyf i’m gwlad” gwell yn Gymraeg neu yn Saesneg?

<sup>2</sup> <http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/tryweryn-fifty-years-sense-injustice-10300573>

### Tryweryn - boddi pentref Cymreig<sup>3</sup>

Roedd Capel Celyn yn gymuned fach wledig yn nyffryn yr Afon Tryweryn yn ymyl Y Bala yng ngogledd Cymru a gynhwysai sawl tŷ a fferm, swyddfa bost, ysgol a chapel Methodistaidd oedd â'i mynwent ei hun<sup>4</sup>. Roedd 67 o bobl yn byw yno. Roedd yn un o'r cymunedau olaf uniaith Gymraeg yn yr ardal. Yn 1956 gofynnodd Cyngor Dinas Lerpwl i'r Senedd i basio cyfraith fyddai'n caniatáu iddynt adeiladu cronfa yn y dyffryn i ddarparu dŵr ar gyfer y ddinas. I wneud hyn byddai'n rhaid boddi Capel Celyn. Gan eu bod wedi gofyn i'r Senedd am ganiatâd golygai na fyddent yn gofyn i awdurdodau lleol yng Nghymru am eu caniatâd. Roedd hefyd yn golygu bod Lerpwl yn cymryd y dŵr o Gymru heb dalu amdano, a byddent yn gallu ei werthu ymlaen heb i Gymru dderbyn unrhyw arian amdano.

Ym Mawrth 1956 ffurfiwyd Pwyllgor Amddiffyn Capel Celyn. Roedd ei aelodau'n cynnwys gwleidyddion adnabyddus fel Megan Lloyd George, Ifan ab Owen Edwards ac Arglwydd Ogwr. Roedd arweinydd Plaid Cymru Gwynfor Evans yn ymwneud â hyn. Yn fuan anfonwyd llythyron a deisebau at Gorfforaeth Ddŵr Lerpwl<sup>5</sup>. Ym mis Tachwedd 1956 gorymdeithiodd trigolion Capel Celyn a'u cefnogwyr drwy Lerpwl i neuadd y dref i ofyn i gyngor y ddinas i ail ystyried. Ar eu baneri 'roedd sloganau fel "Your homes are safe – why destroy ours" a "Please Liverpool, be a great city not a big bully"<sup>6</sup>.

Roedd Elwyn Edwards yn fachgen ysgol 13 oed yn 1956 pan aeth ar orymdaith brotest i Lerpwl. "Aeth dau fws llawn ohonom o Gapel Celyn a chyfarfu'r heddlu â ni yn ymyl y twnnel yn Lerpwl a'n harwain i'r man dechrau. Yn cario placardiau cerddom drwy'r strydoedd. Roedd rhai pobl yn gyfeillgar ond eraill yn sarhaus. Doedd llawer ddim yn gwybod pam 'roedden ni yno gan nad oedd y papurau lleol yn adrodd y stori am ein hymgyrch i rwystro'r dyffryn rhag cael ei foddi."<sup>7</sup>

I ddechrau gwrthododd y cyngor ganiatáu i Gwynfor Evans siarad. Cynigiodd cyngor dinas Lerpwl iawndal i bobl Capel Celyn. Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Roberts, cadeirydd y Pwyllgor Amddiffyn: "Mi fedrwch siarad am iawndal, ond nid galw am iawndal rydyn ni'n gwneud, ond am gadw ein cartrefi." Ychydig wythnosau'n ddiweddarach gwahoddwyd Gwynfor Evans yn ôl ac apeliodd yn angerddol ar gynghorwyr Lerpwl. Ni wnaeth wahaniaeth – pleidleisiodd y cyngor 95 i 1 i gefnogi'r cynllun<sup>8</sup>. Ar y 19eg o Hydref 2005 cyhoeddodd cyngor dinas Lerpwl ymddiheuriad swyddogol am y penderfyniad hwn.

"Mae pawb yn gresynu bod rhaid i rai pobl ddiodef er lles cynnydd," meddai AS Lerpwl Bessie Bradock wrth Dŷ'r Cyffredin yr adeg honno. "Ond dyna yw cynnydd."<sup>9</sup> Pleidleisiodd 35 o'r 36 AS Cymreig yn erbyn mesur Tryweryn a'r AS arall yn ymatal (dim o blaid nac yn erbyn) ond yng Ngorffennaf 1957 fe'i pasiwyd gan y Senedd 166 o bleidleisiau i 117.

<sup>3</sup> Ar linell amser iwonder BBC gellir dod o hyd i luniau a chlipiau fideo o foddï Tryweryn drwy fynd i <http://www.bbc.co.uk/timelines/zt4hycw> yn ogystal â ffotograffau o'r ymgyrch i achub Tryweryn o Gasgliad Y Werin Cymru <https://www.casgliadywerin.cymru/collections/376985> ffotograffau Casgliad Y Werin Cymru "Gadael Capel Celyn" yn <https://www.casgliadywerin.cymru/collections/376981> a thudalen Tryweryn Llyfrgell Genedlaethol Cymru sydd â dogfennau a delweddau a cheir archif lluniau dwyieithog o adeiladu Tryweryn yn <http://www.bbc.co.uk/cymrufyw/34518186> ac am Dryweryn yn Casgliad Y Werin Cymru (delweddau a sain) yn <https://www.casgliadywerin.cymru/content/tryweryn> yn ogystal â safle Newyddion BBC Tryweryn: Clipiau fideo *Locals on the Welsh village 'drowned' by a reservoir* <http://www.bbc.co.uk/news/uk-34597653>

<sup>4</sup> Gellir cael cipolwg prin ar fywyd yng Nghapel Celyn yn <https://www.youtube.com/watch?v=QvBxJEeU1GI> yn ogystal â chlip British Pathe o 1957 "Sentence on a Valley" yn <https://www.youtube.com/watch?v=r2PGQhK4uYU>

<sup>5</sup> <http://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/tryweryn-shock-plans-flood-snowdonia-10240443>

<sup>6</sup> <http://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/tryweryn-shock-plans-flood-snowdonia-10240443>

<sup>7</sup> <http://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/tryweryn-villagers-marched-liverpool-voice-10248505>

<sup>8</sup> <http://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/tryweryn-villagers-marched-liverpool-voice-10248505>

<sup>9</sup> <http://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/tryweryn-liverpool-councils-belated-apology-10286902>



**Ffynhonnell 2:** Protest yn erbyn cronfa Tryweryn yn Lerpwl yn 1956<sup>10</sup>

Derbyniodd yr Adran Weinyddiaeth dros Faterion Cymreig 680 o lythyron cwyn. Dywedai un llythyr o Abertawe “Yr ydym ni yng Nghymru’n ymladd i’r eithaf er mwyn amddiffyn ein hiaith a’n diwylliant. Mae’n codi arswyd arnom fod gan bŵer fel Corfforaeth Lerpwl y rhyddid i gerdded i mewn i’n gwlad a dwyn ein dŵr a’n tir yn y ffordd ormesol hon.” Er hyn, ysgrifennodd un dyn oedd wedi byw yn y dyffryn lythyr i’r llywodraeth yn cefnogi’r boddi. Roedd wedi byw yn y dyffryn am 50 mlynedd a gweld ei ddirywiad – fel ‘roedd arfer bod 50 o blant yn yr ysgol ac erbyn hyn dim ond 9; sut ‘roedd Pwyllgor Amddiffyn Capel Celyn wedi’i greu o bobl o’r tu allan ac aelodau’r Plaid oedd heb amgyffred o amodau byw dychrynlyd y bobl leol; sut ‘roedd pobl yn teimlo dan bwysau i ddangos cefnogaeth i’r cenedlaetholwyr er eu bod yn gweld manteision symud i dai gwell. Erbyn 1957 roedd rhan fwyaf o’r trigolion yn hapus i dderbyn iawndal a chael eu hadleoli rhyw bedair milltir i ffwrdd.<sup>11</sup>

Nid oedd yr un AS yn gefnogol na’r un cyngor Cymreig yn cytuno ond gweithredwyd y penderfyniad er gwaethaf hyn. I nifer ymddangosai fel pe bai Cymru’n hollol ddiymadferth i weithredu yn ei dyfodol ei hun. Cynyddodd cefnogaeth Plaid Cymru ac fe gynyddon nhw’r nifer o seddau ‘roedden nhw’n ymgeisio amdanynt yn etholiad 1959<sup>12</sup>.

Roedd rhai pobl yn fwy eithafol yn eu protest. Ar Fedi’r 22 1962, difrododd David Pritchard a David Walters offer ar y safle.

Cawsant eu harestio a derbyn dirwy o £50 yr un. Ar Chwefror 10, 1963, gosododd Emyr Llywelyn Jones, myfyriwr yn Aberystwyth ac aelod o Fudiad Amddiffyn Cymru, fom 5 pwys wrth waelod trawsffurfiwr trydanol ar y safle adeiladu. Danfonwyd i’r carchar am 12 mis. Fel ymateb i’r ddedfryd ffrwydrodd Owain Williams a John Albert Jones beilon yng Ngellilydan. Achosodd y ffrwydrad ddifrod difrifol. Gyrrwyd y ddau i garchar am 12 mis<sup>13</sup>.

Diweddodd deuddeg tŷ a ffarm o dan y llyn newydd sef Llyn Celyn, a grëwyd gan yr argae<sup>14</sup>. Collodd 48 o’r 67 o bobl a drigai yn y dyffryn eu cartrefi. Roedd 3.2 km<sup>2</sup> o dir o dan ddŵr.

<sup>10</sup> <http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/tryweryn-fifty-years-sense-injustice-10300573>

<sup>11</sup> O dudalen 212 *Wales Since 1939* gan Martin Jones, cyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Manceinion yn 2012 ISBN 9780719086670

<sup>12</sup> Erthygl Newyddion BBC Tryweryn: *How reservoir of anger ‘fuelled nationalist cause’* yn <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-34533405> a gellir lawrlwytho llyfr 1959 Gwynfor Evans “*We Learn From Tryweryn*” o <http://www.hanesplaidcymru.org/download/llyfrynnau/1959%20Learn%20from%20Tryweryn.pdf>

<sup>13</sup> <http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/flooding-tryweryn-valley-done-liverpool-10284326>

<sup>14</sup> Ffilm 40 munud o 1965 “*Tryweryn, Story of a Valley*” i’w gweld yn <http://player.bfi.org.uk/film/watch-tryweryn-the-story-of-a-valley-1965/> a chlip BBC “*The Drowning of Tryweryn*” o 1965 i’w weld yn <http://www.bbc.co.uk/programmes/p01284gb>

## 4 Caledi, Cyfoeth ac Anniddigrwydd 1951-1979: Rhan 3

Symudwyd 8 corff o fynwent y capel i fynwent newydd<sup>15</sup>. Cyfanswm y gost oedd 20 miliwn. Roedd seremoni agoriad swyddogol Tryweryn ar yr 28in o Hydref 1965 yn ffars. Roedd 400 o wahoddedigion a 500 o brotestwyr. Roedd llawer o fwian a gweiddi. Ceisiodd rywun losgi Jac yr Undeb. Taflwyd cerrig at y plattform. Roedd rhaid dod ag areithiau i ben wrth i wifren y meicroffon gael ei dorri<sup>16</sup>. Dyma ymddangosiad cyhoeddus cyntaf **parafilwyr** (tebyg i fyddin) Byddin Rhyddid Cymru gyda'u lifrau a'u baneri Cymru<sup>17</sup>.

Roedd rhaid adeiladu ffordd newydd o'r Bala i Ffestiniog er mwyn osgoi'r dyffryn. Ar wal ger yr A487 yn ymyl Llanrhystud, Ceredigion mae'r geiriau "Cofiwch Dryweryn" yn dal i'w gweld<sup>18, 19</sup>.

"Mae'r Saeson yma 'rydych chi ar fin mynd i'w cyfarfod wedi mynd â'n glo ni, ein dŵr a'n haearn; yna 'maen nhw'n prynu'n tai ni a byw ynddyn nhw am bythefnos bob blwyddyn. Ar hyd y canrifoedd 'mae'r Saeson yma wedi ein hecsploetio a'n hysbeilio - ac 'rydyn ni'n chwarae yn eu herbyn nhw prynhawn 'ma bois.'" Galwad i'r frwydr Phil Bennett, hyfforddwr Cymru cyn gêm rygbi Lloegr-Cymru yn 1977.<sup>20</sup>

### Trasiedi yn Aberfan<sup>21</sup>

Ar Hydref 21in, y dydd Gwener cyn hanner tymor, digwyddodd trychineb ym mhentref glofaol Aberfan. Llithrodd tomen wastraff o lofa gyfagos Merthyr Vale i lawr ochr y mynydd. Gan orchuddio rhan o Ysgol Gynradd Pantglas a difrodi sawl ffarm a phentref. Roedd 2,000 o bobl yn rhan o'r ymdrech achub<sup>22</sup> a chloddient drwy'r rwbwl i ddod o hyd i oroeswyr, ond ni thynnwyd neb o'r rwbwl yn fyw ar ôl 11 o'r gloch y bore hwnnw. Bu 144 farw, 116 ohonynt yn blant rhwng 7 a 10. Roedd yn ergyd ddifrifol i gymuned fach a oedd mor glos.<sup>23</sup>

<sup>15</sup> [http://www.bbc.co.uk/wales/history/sites/themes/guide/ch22\\_a\\_new\\_nation.shtml](http://www.bbc.co.uk/wales/history/sites/themes/guide/ch22_a_new_nation.shtml)

<sup>16</sup> O dudalen 233 *Wales Since 1939* gan Martin Johns cyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Manceinion yn 2012 ISBN 9780719086670

<sup>17</sup> Clip ITV am Tryweryn a Byddin Rhyddid Cymru <https://www.youtube.com/watch?v=BxEiJekU2pg>

<sup>18</sup> Tryweryn: Storiâu personol 50 mlynedd wedi'r bodd i yn <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-34528336> a chlipiau rhaglen Tryweryn 50 Years On <http://www.bbc.co.uk/programmes/b06jgsxbk> a chan 1998 y Manic Street Preachers "Ready for Drowning" wedi'i ysbrydoli gan Dryweryn i'w gweld yn <https://www.youtube.com/watch?v=a33J4ADNfo>

<sup>19</sup> O dudalen 15 Cymru 1900 Hyd Heddiw gan Harri Jones a Colin Hughes cyhoeddwyd gan CAA yn 2014 ISBN 9781845215279

<sup>20</sup> O dudalen 512 *Seasons in the Sun* gan Dominic Sandbrook cyhoeddwyd gan Penguin yn 2013 ISBN 9780141032160

<sup>21</sup> Clip o "Wales in the Seventies" ynglŷn â chofio Aberfan <http://www.bbc.co.uk/programmes/p00hb3fw> ac Aberfan: Tudalen ITV 50 years since a tragedy that shook the world gyda chlipiau fideo a ffotograffau <http://www.itv.com/news/wales/2016-10-21/aberfan-50-years-since-a-tragedy-that-shook-the-world/> a <http://www.itv.com/news/2016-10-21/happy-childhoods-ended-in-devastation-of-aberfan-tragedy/> a choffâu trasiedi Aberfan 50 mlynedd yn ôl yn y papurau'n ddiweddar <http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/wales-set-fall-silent-nation-12057055> a <http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/wales-news/aberfan-50-years-on-nation-12057394> a <http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/how-aberfan-marked-50-years-12062773> a <http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/aberfan-today-community-forging-new-12018850> erthygl y Guardian ynglŷn â sut y dylai Aberfan gael ei gofio <https://www.theguardian.com/culture/2016/oct/09/aberfan-50-years-owen-sheers-the-green-hollow-film-poem> yn ogystal ag adroddiad Sianel 4 ar goffâu Aberfan ar ôl 50 mlynedd <https://www.youtube.com/watch?v=MVtYZdzjmMQ> a Carwyn Jones yn siarad wrth i Aberfan gael ei gofio yn y Senedd <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-politics-37702692> a <http://www.telegraph.co.uk/men/thinking-man/aberfan-was-a-man-made-disaster-50-years-on-we-must-remember-thi/>

<sup>22</sup> Adroddiadau 1966 British Pathe am yr ymgyrch achub yn <https://www.youtube.com/watch?v=-Nr-6uxM7y8> a <https://www.youtube.com/watch?v=1LzJLww3DvM>

<sup>23</sup> Gellir gweld rhaglenni dogfen y BBC "Aberfan the untold story" yn <https://youtu.be/TGwJsDbmV9M> a "Surviving Aberfan" i'w gweld yn <https://www.youtube.com/watch?v=oeBVuofaSY4> a thudalen y we'r BBC am Aberfan sy'n cynnwys tystiolaeth a ffotograffau yn <http://www.bbc.co.uk/news/resources/idt-150d11df-c541-44a9-9332-560a19828c47>



### **Ffynhonnell 3:** Achubwyr yn cloddio drwy'r mwd yn Aberfan i ddod o hyd i oroeswyr <sup>24</sup>

Dwedodd un o'r rhai oroesodd o Ysgol Gynradd Pantglas "Roeddwn i yno am tuag awr a hanner cyn i'r frigâd dân ddod o hyd i fi. Clywais grio a sgrechian ond doeddwn i ddim yn gallu symud. Roedd y ddesg wedi'i wthio i'm stumog ac roedd fy nghoes o dan y rheiddiadur. Roedd y ferch fach drws nesa' i mi wedi marw ac roedd ei phen ar f'ysgwydd."<sup>25</sup>

Anfonwyd 50,000 o lythyrau cydymdeimlad i Aberfan. Darlledwyd angladdau'r rhai a fu farw ar y BBC<sup>26</sup>. Aeth y Frenhines a Dug Caeredin ar ymweliad yno wyth niwrnod ar ôl y drychineb<sup>27</sup>. Roedd datganiadau o gefnogaeth o Dŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi. Gorchmynnodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Cledwyn Hughes, archwiliad i'r hyn ddigwyddodd. Cadeiriwyd hwn gan Syr Herbert Edmund Davies, bargyfreithiwr oedd yn gyfarwydd â chyfraith mwngloddio. Parhaodd yr ymchwiliad am 2 fis, gwrandawyd ar 136 o dystion, edrychwyd ar 300 darn o dystiolaeth a darllenwyd 2.5 miliwn gair o dystiolaeth<sup>28</sup>.

Cyhoeddwyd adroddiad yr archwiliad ar y 3ydd o Awst 1967. Dywedodd, "...mae trychineb Aberfan yn stori ddychrynlyd am anfedrusrwydd di-glem dynion a roddwyd i ofalu am dasgau hollol anghymwys iddynt, am fethiant i wrando ar rybuddion clir, ac am ddiffyg cyfarwyddyd oddi uchod. Nid dihirod ond dynion parchus, wedi eu harwain ar gyfeiliorn un ai gan ffolineb neu anwybodaeth neu'r ddau, sy'n gyfrifol am yr hyn ddigwyddodd yn Aberfan.....Mae'r bai am y trychineb yn gorwedd ar y Bwrdd Glo Cenedlaethol. Rhennir hyn, i raddau amrywiol, rhwng pencadlys yr NCB(National Coal Board), Bwrdd Rhanbarthol y De Orllewin, ac unigolion penodol.....Mae atebolrwydd cyfreithiol yr NCB i dalu iawndal ar gyfer niweidiau personol, marwol neu fel arall, a niwed i eiddo, yn ddiarheul ac yn ddiwrthwynebiad"<sup>29</sup>.

Brawychwyd yr ymchwiliad gan ymddygiad yr NCB cyn ac ar ôl y trychineb. Mynnodd yr Arglwydd Robens, cadeirydd yr NCB, drwy ran fwyaf o'r achos nad oedd yr NCB yn gwybod bod unrhyw beth o'i le ar y domen yn Aberfan. Yn y diwedd ymddangosodd ar ddiwedd yr ymchwiliad, rhoi tystiolaeth a chyfaddef bod yr NCB ar fai. Daeth yn amlwg nad oedd yr NCB wedi gwneud arolwg o'r safle ar gyfer tomen Aberfan. Roedd nant leol a redai drwy'r ardal ar bob map o'r cyfnod<sup>30</sup>. Roedd yr awdurdod lleol wedi cwyno dro ar ôl tro wrth yr NCB am wastraff glo yn cael ei olchi lawr i'r ysgol gynradd ond dwedodd yr NCB ei fod yn ddiogel<sup>31</sup>. Cynigiodd Robens ymddiswyddo ond gwrthododd y llywodraeth Lafur hyn gan fod ei angen arnynt i geisio rhwystro dirywiad y diwydiant glo.

<sup>24</sup> [http://www.walesonline.co.uk/news/local-news/michael-sheen-gives-moving-recital-12018594?ptrn\\_rid=737050&icid=EM\\_WalesOnline\\_Nletter\\_News\\_Features\\_headline\\_Story1](http://www.walesonline.co.uk/news/local-news/michael-sheen-gives-moving-recital-12018594?ptrn_rid=737050&icid=EM_WalesOnline_Nletter_News_Features_headline_Story1)

<sup>25</sup> O dudalen 308 *The Story of Wales* gan Jon Gower wedi'i gyhoeddi gan y BBC yn 2012 ISBN 9781849903738

<sup>26</sup> Araith angladdol Gwyn Thomas gafodd ei darlledu gan y BBC ar ddiwrnod y claddu <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-37717604> neu yn <https://www.youtube.com/watch?v=I7z7pBV15yk>

<sup>27</sup> Adroddiad Newyddion ITV am y Frenhines ac Aberfan <https://www.youtube.com/watch?v=aObxL02DnHs>

<sup>28</sup> O dudalen 308 *The Story of Wales* gan Jon Gower cyhoeddwyd gan y BBC yn 2012 ISBN 9781849903738

<sup>29</sup> O dudalen 308 *The Story of Wales* gan Jon Gower cyhoeddwyd gan y BBC yn 2012 ISBN 9781849903738

<sup>30</sup> Adnodd HWB Aberfan yn cynnwys mapiau, a ffotograffau a gweithgareddau PowerPoint yn <http://hwb.wales.gov.uk/resources/resource/8ea08714-3f92-4ce4-b5c9-3d7bd8e17503>

<sup>31</sup> O dudalen 308 *The Story of Wales* gan Jon Gower cyhoeddwyd gan y BBC yn 2012 ISBN 9781849903738

## 6 Caledi, Cyfoeth ac Anniddigrwydd 1951-1979: Rhan 3

Dechreuwyd cronfa drychineb i godi arian ar gyfer Aberfan a chodwyd £1.75 miliwn (cyfateb i £25 miliwn heddiw) ond roedd dadlau rhwng y gymuned a'r awdurdod lleol ynglŷn â sut i wario'r arian. Roedd y cyngor lleol wedi achosi gofid i'r teuluoedd oedd yn galaru drwy ddanfôn llythyrau cydymdeimlad oedd wedi'u dyblygu atynt, ac yna danfôn eu plant i ysgol gynradd Ynysowen o dan domen wastraff lo arall, a'r fynwent lle'r oedd beddau eu ffrindiau i'w gweld yn glir<sup>32</sup>.

Roedd pobl Aberfan eisiau i'r tomenni gwastraff oedd ar ôl gael eu symud gan eu bod yn eu hatgoffa o'r trychineb. Dwedodd yr NCB y byddai'n rhy gostus. Yn Awst 1968 gorfododd y llywodraeth i'r gronfa drychineb i dalu £150,000 i'w symud er na ddylai'r NCB wedi'u gosod yno yn ôl eu rheolau eu hunain. Yn y pen draw talodd y gronfa drychineb am ail adeiladu capel y pentref oedd wedi ei ddefnyddio fel corffdy dros dro. Ni allai'r bobl ddiodesdef addoli yn yr hen adeilad ond gwrthododd yr NCB dalu amdano<sup>33</sup>. Roedd cymunedau glofaol yn amharod i feirniadu'r NCB gan eu bod yn pryderu mai eu pwll nhw fyddai'r nesaf i gael ei gau<sup>34</sup>.

Anogodd y trychineb yn Aberfan nifer o ymgyrchoedd gan gymunedau glofaol eraill i gael gwared ar y tomenni gwastraff glo neu eu lefelu, a arweiniodd at dirlunio sawl ardal lofaol sydd dal i'w weld heddiw<sup>35</sup>.

### Cymru a'r Teulu Brenhinol

#### Map 1: Y Deyrnas Unedig



<sup>32+33</sup> O dudalen 245 *Wales Since 1939* gan Martin Johnes cyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Manceinion yn 2012 ISBN 9780719086670

<sup>34</sup> Gellir darllen stori am sut y siomwyd pobl Aberfan gan yr NCB <http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/how-people-aberfan-were-repeatedly-12025941> a <http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/terrifying-tale-ineptitude-aberfan-disaster-12025544>

<sup>35</sup> O dudalen 308 *The Story of Wales* gan Jon Gower cyhoeddwyd gan y BBC yn 2012 ISBN 9781849903738

Wrth siarad ag aelodau dau Dŷ'r Senedd yn ystod y dathliadau ar gyfer ei Jiwbilî Arian ar 4 Mai 1977, dywedodd y Frenhines Elisabeth II, 'Ni allaf anghofio fy mod wedi fy nghoroni yn Frenhines Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Efallai fod y Jiwbilî hon yn amser i'n hatgoffa ni'n hunain o'r manteision yn sgil uno, gartref ac yn ein trafodaethau rhyngwladol, ar gyfer trigolion pob rhan o'r Deyrnas Unedig'.<sup>36</sup>

Fe wnaeth y Teulu Brenhinol chwarae rhan yn y broses o gydnabod hunaniaeth Cymru fel cenedl. Nid oedd Cymru erioed wedi bod yn deyrnas ei hun, felly ni chafodd ei chynnwys ym maner Jac yr Undeb. Roedd y Stiwardiaid wedi disodli draig y Tuduriaid yn y faner frenhinol ag unicorn a oedd yn cynrychioli brenhiniaeth yr Alban. Ar ôl llawer o ddadlau a gwrthod sawl baner a awgrymwyd gan ddylunwyr o Loegr, fe wnaeth y Frenhines gydnabod yn swyddogol baner Harri Tudur, sef draig goch ar gefndir gwyn a gwyrdd, fel baner Cymru yn 1960. Yn fuan wedyn, roedd y faner i'w gweld ar adeiladau ledled Cymru. Roedd teimpladau twymgalon tuag at y Teulu Brenhinol yn parhau yng Nghymru. Cafodd y Frenhines dderbyniad da wrth iddi deithio Cymru ar ôl ei choroni yn 1953, a phan ddathlodd ei Jiwbilî Arian yn 1977.

### **FFOCWS: arwisgiad y Tywysog Siarl yn Dywysog Cymru yn 1969<sup>37</sup>**

Yn fwy dadleuol yng Nghymru oedd penderfyniad y Frenhines i **arwisgo** ei mab hynaf, Siarl, yn swyddogol fel Tywysog Cymru yng Nghastell Caernarfon yn 1969.<sup>38</sup> Roedd y teitl 'Tywysog Cymru' wedi'i roi i etifedd gorsedd Lloegr ers 1301 gan y Brenin Edward I fel symbol o reolaeth ar Gymru, ond nid oedd y teitl erioed wedi cael ei ddefnyddio'n ffurfiol mewn gwirionedd. Gan weithio gyda'r Prif Weinidog **Harold Wilson**, fe wnaeth y Frenhines benderfynu y byddai rhoi'r teitl hwn i'r Tywysog Siarl yn cryfhau'r gefnogaeth ar gyfer y Deyrnas Unedig ac yn lleihau apêl cenedlaetholdeb.

Roedd nifer o wrthwynebiadau pan gyhoeddwyd bod y Tywysog Siarl yn mynd i gael ei goroni'n Dywysog Cymru. Roedd gwrthdystiadau meddiannu, streiciau newyn a gorymdeithiau protest. Cafwyd cwynion bod imperialaeth Saesneg yn cael ei wthio ar Gymru, ac am wastraffu arian cyhoeddus. Rhoddwyd Plaid Cymru mewn sefyllfa anodd ac ni ddwedwyd dim am yr arwisgo; doedden nhw ddim eisiau dieithrio eu haelodau ifanc drwy ei gefnogi a doedden nhw ddim am gollu eu cefnogwyr hŷn drwy ei wrthwynebu<sup>39</sup>.

Aeth Siarl i astudio'r Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth am dymor cyn yr arwisgo. Roedd ei diwtor yn gefnogwr Plaid Cymru. Roedd y Prif Weinidog Harold Wilson yn poeni y byddai'n agored i niwed ond dywedodd MI5 nad oedd mewn unrhyw berygl. Cafodd yr ychydig fyfyrwyr Cymraeg oedd yn protestio wrth iddo gerdded drwy'r strydoedd i'w ddosbarthiadau bob dydd, eu boddi gan ei gefnogwyr. Roedd gan Siarl gymaint o gydymdeimlad tuag at y safbwynt Cymreig fel i'w ymgynghorwyr boeni bod gormod o gydymdeimlad ganddo tuag at achos cenedlaetholdeb.

Er mwyn osgoi achosi trafferth yn y seremoni roedd yr awdurdodau wedi arestio arweinwyr y grŵp paramilwrol Byddin Rhyddid Cymru. Ar ddiwrnod yr arwisgo aethant o flaen llys ond arweiniodd eu honiadau gormodol ynglŷn â'u cefnogaeth a'r hyn roeddent wedi'i gyflawni at dri ohonynt yn cael eu danfon i garchar a thri yn derbyn dedfrydau gohiriedig.

<sup>36</sup> Richard Weight, *Patriots: National Identity in Britain 1940–2000* (Llundain, 2013), tudalen 548. Roedd hyn ychydig yn ddadleuol gan mai Elisabeth II, Brenhines Lloegr, Iwerddon a Chymru oedd hi, nid yr Alban a oedd â'i brenhiniaeth ei hun pan oedd Elisabeth I yn frenhines; gallwch wrando ar y Frenhines yn dweud hyn yma: <http://goo.gl/r6H6Qr>

<sup>37</sup> Gellir mynd ar linell amser ryngweithiol y BBC o'r arwisgiad yn <http://www.bbc.co.uk/wales/history/sites/timeline/investiture.shtml> a gellir dod o hyd i erthyglau a ffotograffau am yr arwisgiad yn <http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/queen-gives-blessing-welsh-crown-9259507> a <http://www.walesonline.co.uk/lifestyle/nostalgia/welsh-history-month-many-supported-7830492>

<sup>38</sup> Gweler ffilm lliw o'r arwisgo yn <http://goo.gl/zsvXBz>

<sup>39</sup> O dudalen 195 *A History of Modern Wales* gan Philip Jenkins cyhoeddwyd gan Longman yn 1992 ISBN 9780582489257

Cafwyd nifer o alwadau ffug am fomiau. Roedd Mudiad Amddiffyn Cymru (MAC) yn trefnu pedwar ffrwydrad, nid er mwyn lladd Siarl ond er mwyn tarfu. Lladdwyd dau aelod o MAC yn Abergele ddiwrnod cyn yr arwisgo pan ffrwydrodd eu gelignite<sup>40</sup>. Ffrwydrodd bom tu allan i ardd Prif Gwnstabl Gwynedd heb achosi unrhyw niwed. Pedwar diwrnod yn ddiweddarach collodd bachgen 10 mlwydd oed droed ar ôl baglu dros ffrwydron tu allan i siop haearnwerthwr roedd Siarl wedi'i phasio ar y ffordd i'r castell. Ar bier Llandudno methodd bom arall a ffrwydro. Yn Nhachwedd 1969 arestwyd John Jenkins a Frederick Alders a'u danfon i'r carchar am achosi ffrwydradau a daeth ymgyrch fomio MAC i ben.



**Ffynhonnell:** arwisgiad Tywysog Siarl fel Tywysog Cymru yng Nghastell Caernarfon yn 1969<sup>41</sup>

Aeth yr arwisgo yn ei flaen ar Orffennaf 1<sup>af</sup> 1969. Yn ei araith, a draddodwyd yn Gymraeg, cydnabu Siarl fod pobl Cymru'n benderfynol o amddiffyn eu treftadaeth a pharhau'n genedl falch ac ar wahân. Gwylodd 90,000 yr orymdaith yng Nghaernarfon, tipyn llai na'r 250,000 oedd wedi ei ddisgwyl. Dangoswyd seremoni'r arwisgo ar y teledu, a chafodd ei darlledu o amgylch y byd – roedd yn ddathliad rhyngwladol o ddiwylliant Cymru mewn ffordd nas gwelwyd erioed o'r blaen. Gwylodd 500 miliwn o bobl y seremoni ar draws y byd, 19 miliwn ohonynt yn y DU<sup>42</sup>. Costiodd y seremoni £200,000 o arian cyhoeddus ond roedd wedi creu hwb mawr o safbwynt yr economi leol mewn twristiaeth.

Wedi'r holl fygythiadau am darfu bu rhaid i'r llys ynadon lleol ddelio ag ychydig o ddigwyddiadau'n unig - dau achos o ddinoethiad anwedus, dau am gario arfau bygythiol, tri am darfu ar yr heddwch (dau ohonynt am wneud arwydd "V" ar y Frenhines a'r dyrfa wedyn yn troi arnynt ac un am daflu croen banana o dan Farchoglu'r Frenhines).

<sup>40</sup> Gellir darllen erthygl am yr orymdaith ddadleuol i goffau y ddau ddyn a laddwyd wrth fynd a bom i'r arwisgo yma <http://news.bbc.co.uk/1/hi/wales/8120839.stm>

<sup>41</sup> <http://www.walesonline.co.uk/incoming/gallery/prince-charless-investiture-caernarfon-1969-7353393>

<sup>42</sup> O dudalen 235 *The People of Wales* golygwyd gan Gareth Elwyn Jones and Dai Smith cyhoeddwd gan Gomer yn 2000 ISBN 9781859027431



Roedd polau piniwn yn awgrymu fod  $\frac{3}{4}$  o bobl Cymru'n cefnogi'r achlysur<sup>43</sup>, er bod cyfran uwch o bobl ifanc yn elyniaethus tuag ato. Ar Orffennaf 1af adroddodd y South Wales Argus, "ni all y tensiwn mewnol guddio'r ffaith fod yr arwisgo o safbwynt mwyafrif helaeth pobl Cymru'n ddigwyddiad llawen a chofiadwy. I'r dyn a'r fenyw gyffredin ar y stryd mae'r dadleuon haniaethol yn llai mawreddog na realiti seremoni liwgar sy'n cynnwys tywysog ifanc a'i deulu ac sydd, yn ystod yr wythnos neu ddwy ddiwethaf, wedi dod yn fwy real a byw oherwydd ffilm, ffotograffau a chyfweliadau yn y Wasg."<sup>44</sup>

### Datblygiadau yng ngwleidyddiaeth Cymru



**Ffynhonnell 4:** Ffotograff o'r plac ger mynedfa Swyddfa Cymru, San Steffan, Llundain, mis Ebrill 2014

Roedd Cymru wedi'i huno'n gyfreithiol â Lloegr yn 1536, ond yn wahanol i'r Alban a Gogledd Iwerddon, nid oedd Cymru erioed wedi cael ei senedd, ei chyfreithiau na'i system addysgol ei hun. Cafodd y diwylliant penodol Cymraeg ei iaith mewn sawl rhan o Gymru ei gydnabod yn ffurfiol tuag at ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd system addysgol 1880 yn cydnabod yr iaith Gymraeg a threftadaeth ddiwylliannol Cymru, ac yn 1893, ymunodd colegau yn Aberystwyth, Bangor a Chaerdydd â'i gilydd i ffurfio Prifysgol Cymru.

Daeth yr Ail Ryfel Byd â rhywfaint o gydnabyddiaeth swyddogol i bwysigrwydd hunaniaeth Gymraeg benodol. Mewn ymateb i gwynion gan wrandawyr Cymru, dywedodd y Weinyddiaeth Wybodaeth wrth y BBC am roi'r gorau i ddefnyddio 'Lloegr' yn eu darllediadau radio pan roedden nhw'n golygu'r 'Deyrnas Unedig', gan fod pob un o ranbarthau'r DU yn cyfrannu at ymdrech y rhyfel.<sup>45</sup> Dechreuodd y BBC ddarlledu'r newyddion yn Gymraeg hefyd, er y rhoddwyd yr amledd hwn i Rwydwaith y Lluoedd yn fuan iawn. Ni sefydlwyd gorsaf iaith Gymraeg amser llawn tan sefydlu Radio Cymru yn 1977.

<sup>43</sup> O dudalen 288 *The Story of Wales* gan Jon Gower cyhoeddwyd gan y BBC yn 2012 ISBN 9781849903738

<sup>44</sup> O dudalen 235 *Wales Since 1939* gan Martin Johnes cyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Manceinion yn 2012 ISBN 9780719086670

<sup>45</sup> *Richard Weight, Patriots: National Identity in Britain 1940–2000* (Llundain, 2013), tudalen 53.

## 10 Caledi, Cyfoeth ac Anniddigrwydd 1951-1979: Rhan 3

Ysgrifennwyd llythyrau ac anfonwyd deisebau at y Prif Weinidog Winston Churchill yn 1943 gan awdurdodau lleol, undebau ac arweinwyr eglwysi yn gofyn am Swyddfa Cymru yn San Steffan. Arweiniodd hyn at y canlynol:

- y llywodraeth Lafur yn sefydlu Cyngor Cymru yn 1949 i edrych ar effeithiau polisiau'r llywodraeth ar Gymru
- y llywodraeth Geidwadol yn penodi Gweinidog Materion Cymreig yn 1951, er y cadwyd hwn fel rhan o swyddogaeth yr Ysgrifennydd Cartref tan 1957 pan drosglwyddwyd y swydd i'r Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
- dewiswyd Caerdydd, a oedd wedi bod yn ddinas ers 1907, fel prifddinas swyddogol Cymru yn 1955; cafodd Caernarfon ac Aberystwyth eu hystyried hefyd
- O dan bwysau i wrthdroi'r bygythiad cenedlaethol oedd yn cynyddu yng Nghymru creodd Llafur y Swyddfa Gymreig yn 1964; rhedwyd hon gan Weinidog Gwladol Cymru<sup>46</sup> ac roedd ganddo sedd ar y Cabinet; roedd pŵer ganddo dros lywodraeth leol, tai a ffyrdd; yn gynnar yn yr 1970au ychwanegodd y Ceidwadwyr addysg gynradd ac uwchradd, diwydiant a gwaith, ac yna ychwanegodd Llafur amaethyddiaeth, pysgodfeydd, addysg uwch a chymorth ar gyfer ardaloedd trefol i'r rhestr hon; erbyn 1979 roedd gan y Swyddfa Gymreig<sup>47</sup> gyllid blynyddol o £1.5 biliwn ond dim ond addasu cyfarwyddiadau o San Steffan ar gyfer Cymru y gallai wneud; agorodd ei swyddfeydd ym Mharc Cathays yng Nghaerdydd yn 1979
- Roedd Deddf yr Iaith Gymraeg 1967 yn rhoi i'r iaith statws cyfartal â'r Saesneg, ac yn dweud na ddylid tybio y byddai'r holl gyfreithiau a oedd yn enwi Lloegr yn unig yn berthnasol i Gymru yn awtomatig, fel oedd yr achos ers 1536
- Arweiniodd cydnabyddiaeth gynyddol o Gymru fel endid gwleidyddol annibynnol at sefydlu'r Blaid Ryddfrydol Gymreig yn 1966, cynhadledd gyntaf annibynnol Ceidwadwyr Cymru yn 1972 ac yn 1975, daeth Cyngor Rhanbarthol Cymreig Llafur yn Blaid Lafur - Cymru
- Cafwyd ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru a gweddill y DU yn Ebrill 1974; Aeth Cymru o gael 4 bwrdeistref sirol ac 13 o siroedd, a'u poblogaeth yn amrywio o 750,000 ym Morgannwg i 18,250 yn Sir Faesyfed, i 8 sir a'u poblogaeth yn amrywio o 531,800 ym Morgannwg Ganol i 99,200 ym Mhowys; gwnaeth Sir Fynwy'n rhan swyddogol o Gymru am y tro cyntaf<sup>48</sup>; diflannodd hen gynghorau sirol i'w disodli gan awdurdodau lleol neu ranbarthol mwy - addaswyd Gwynedd, Clwyd, Powys, Dyfed a Gwent o enwau hanesyddol Cymru'r Canoloesoedd, ynghyd â Dwyrain a De Morgannwg a Morgannwg Ganol; cafwyd rhai anawsterau ymarferol difrifol - roedd gan y cynghorydd ar gyfer Borth yng ngogledd yr hen Sir Aberteifi taith gron o 100 milltir i gyfarfodydd y cyngor yng Nghaerfyrddin; roedd pobl yn parhau i uniaethu â'r hen gynghorau ardal a sirol yn hytrach na'r awdurdodau newydd.<sup>49</sup>

<sup>46</sup> Gwefan Newyddion y BBC yn dathlu 50 mlynedd Caerdydd fel prif ddinas Cymru yn <http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-south-east-wales-35126210>

<sup>47</sup> Clip o "Wales in the Seventies" am y Swyddfa Gymreig <http://www.bbc.co.uk/programmes/p00kx6hc>

<sup>48</sup> O dudalen 638 Hanes Cymru gan John Davies cyhoeddwyd gan Penguin yn 2007 ISBN 9780140284768

<sup>49</sup> O dudalen 401 *Wales 1880 to 1980* gan Kenneth O Morgan cyhoeddwyd gan Wasg Rhydychen yn 1982 ISBN 978780198217602



Siroedd Cymru cyn 1974 <sup>50</sup>



Siroedd Cymru 1974 i 1996<sup>51</sup>

Llafur oedd y blaid wleidyddol gryfaf yng Nghymru, hyd yn oed pan nad oedd y blaid yn

<sup>50</sup> [https://en.wikipedia.org/wiki/Historic\\_counties\\_of\\_Wales](https://en.wikipedia.org/wiki/Historic_counties_of_Wales)

<sup>51</sup> [https://en.wikipedia.org/wiki/Preserved\\_counties\\_of\\_Wales](https://en.wikipedia.org/wiki/Preserved_counties_of_Wales)

llywodraethu yn y DU. Parhaodd penderfyniadau am Gymru i gael eu gwneud yn y senedd yn San Steffan. Roedd 36 o 650 o AS yn cynrychioli etholaethau yng Nghymru. Roedd twf economaidd yn golygu nad oedd llawer o gefnogaeth ar gyfer Plaid Cymru, a oedd â naw ymgeisydd yn etholiad cyffredinol 1959. Methodd bob un ag ennill o leiaf 5% o'r bleidlais.<sup>52</sup> Yn 1959 cyflwynodd ymgyrch dros Senedd Gymreig ddeiseb ag arni 250,000 o lofnodion. Ni wnaeth lwyddo i wneud fawr ddim wrth i'r cytundeb rhwng llawer o'i chefnogwyr chwalu ar ôl cyflwyno'r ddeiseb.

### Twf Plaid Cymru

**Tabl 1: Canlyniadau Plaid Cymru mewn etholiadau cyffredinol 1959–1979<sup>53</sup>**

Etholiad Cyffredinol	Ymgeiswyr	Seddi a Enillwyd	Pleidleisiau a Enillwyd
1959	20	0	77,571
1964	23	0	69,507
1966	20	0	61,071
1970	36	0	175,016
1974	36	2	171,374
1974	36	3	166,321
1979	36	2	132,544

Roedd iaith, crefydd a diwylliant yn bwysig iawn i bobl Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Wrth i gyfathrebiadau â gweddill y DU wella trwy gydol yr ugeinfed ganrif, daeth y pethau hyn yn llai pwysig i rai o bobl Cymru. Er mwyn cryfhau diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg, sefydlwyd plaid genedlaetholgar yng Nghymru, sef Plaid Genedlaethol Cymru, yn 1925. I ddechrau, y dosbarth canol, athrawon, gweinidogion capel a phobl broffesiynol oedd yn cefnogi Plaid Cymru, ac erbyn 1939 dim ond 2,000 o aelodau oedd.<sup>54</sup> Roedd gan y rhan fwyaf o bobl fwy o ddiddordeb mewn cefnogi diwygiadau arfaethedig y Blaid Lafur, a oedd am gadw Cymru a'r Alban yn y DU.

Roedd y rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yn byw mewn ardaloedd diwydiannol ac yn pleidleisio ar gyfer y Blaid Lafur. Dyna pam nad oedd Plaid Cymru yn ennill llawer o bleidleisiau mewn etholiadau cyffredinol. Nid oedd llawer o'r ardaloedd hyn yn ardaloedd Cymraeg eu hiaith, ac nid oedd ganddyn nhw lawer o ddiddordeb yn nelfrydau'r blaid. Erbyn yr 1950au, dechreuodd Plaid Cymru ehangu ei gorwelion gan fynd i'r afael â materion gwleidyddol yn ogystal â diwyllianol. Dechreuodd pobl ledled y DU bleidleisio yn erbyn y Blaid Lafur, a manteisiodd y cenedlaetholwyr ar y sefyllfa hon yng Nghymru ac yn yr Alban. Enillodd Plaid Cymru 175,000 o bleidleisiau yn etholiad cyffredinol 1970,<sup>55</sup> gan ennill sawl sedd yn y Senedd. Rhwng 1959 ac 1974, aeth cyfran Plaid Cymru o'r bleidlais i fyny o 0.2% i 20%.<sup>56</sup>

Nid y ffaith bod pleidleiswyr yn troi eu cefnau ar y Blaid Lafur oedd yr unig reswm am hyn. Roedd rhesymau eraill pam y gwelwyd cynnydd yn y gefnogaeth ar gyfer Plaid Cymru yn yr 1960au:

<sup>52</sup> Norman Lowe, *Mastering Modern British History* (Palgrave Macmillan, 2009), tudalen 524.

<sup>53</sup> Gwybodaeth gan Andrew Boxer gyda Keith Lockton ac Elizabeth Sparey, *The End of Consensus: Prydain 1945–90* (Essex, 2009), tudalen 126, a thudalen Wikipedia Plaid Cymru <http://goo.gl/94e6Fe>

<sup>54</sup> Josh Brooman, *Britain in the 20th Century: People in Change* (Longman, 1994), tudalen 144.

<sup>55</sup> Josh Brooman, *Britain in the 20th Century: People in Change* (Longman, 1994), tudalen 145.

<sup>56</sup> Richard Weight, *Patriots: National Identity in Britain 1940–2000* (Llundain, 2013), tudalen 408.

## 13 Caledi, Cyfoeth ac Anniddigrwydd 1951-1979: Rhan 3

- Roedd angen moderneiddio diwydiant Cymru am na allai gystadlu â gwledydd eraill. Gwnaeth y gyfradd ddiweithdra ddyblu yn ystod 1958 yn unig. Roedd 164 o byllau glo yn 1960, ond dim ond 52 oedd yn dal ar agor yn 1970 ac roedd mwy o byllau'n dal i gael eu cau.<sup>57</sup> Daeth Plaid Cymru yn agos iawn at ennill isetholiadau yng Ngorllewin y Rhondda a Chaerffili yn yr 1960au, wrth i raglen y llywodraeth Lafur o gau pyllau glo arwain at gynydd mewn diweithdra lleol rhwng 1967 ac 1968. Yn 1967 dywedodd glöwr oedd newydd gael ei ddiswyddo, "Fydda i byth yn pleidleisio dros Lafur eto. Ar gyfer beth fuaswn i'n pleidleisio? Cwm marw." Yn yr un flwyddyn esboniodd pensïynwr o'r Rhondda pam roedd wedi newid ei bleidlais i Blaid Cymru: "Roedd yn beth anodd i wneud, ond rwy'n teimlo bod Llafur wedi cau ein pyllau lawr, ymddiswyddo dynion heb ddarparu swyddi amgen iddyn nhw." Roedd hefyd cynnydd yn y gefnogaeth i Blaid Cymru fel protest wleidyddol. Yn ystod etholiad 1974 dywedodd gwraig tŷ o Gaerffili, "Rydw i wedi pleidleisio i Lafur erioed ond rydw i wedi cael llond bol ar y pleidiau mawr. Efallai y gwna i bleidleisio dros Blaid Cymru - mi allai helpu i newid pethau ac mae angen newid ar y wlad."<sup>58</sup>
- Fe wnaeth llawer o gynghorau dinas Lloegr brynu tiroedd yng nghymoedd Cymru er mwyn adeiladu argae ar eu traws a'u troi yn gronfeydd i ddarparu dŵr. Un o'r cynlluniau mwyaf dadleuol oedd cynllun Lerpwl i droi dyffryn Tryweryn yng ngogledd-orllewin Cymru yn gronfa, a fyddai'n boddï pentref. Yn 1957, pleidleisiodd y Senedd o blaid rhoi dyffryn Tryweryn i Lerpwl. Trefnodd arweinydd Plaid Cymru, Gwynfor Evans, brotestiadau yn erbyn hyn – methiant fu'r protestio, ond enillodd Plaid Cymru lawer o gyhoeddusrwydd a chefnogaeth<sup>59</sup>. Fel y dywedodd Henry Brooke, y gweinidog a oedd yn gyfrifol am Gymru, mewn llythyr at y Prif Weinidog Harold Macmillan ym mis Tachwedd 1957, 'Mae'n hollbwysig osgoi creu...y teimlad bod Cymru'n cael ei defnyddio gan y Saeson at eu dibenion eu hunain, yn hytrach na chael ei thrin fel cenedl ar wahân'<sup>60</sup>
- Fe roddodd un o sefydlwyr Plaid Cymru, Saunders Lewis, araith danllyd ar y radio yn 1962, 'Tynged yr Iaith', i warchod yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru rhag y llywodraeth Seisnig yn Llundain. Roedd yr araith yn ymateb i gyfrifiad 1961, a oedd yn dangos lleihad yn y gyfran o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru o 36% yn 1931 i 26% yn 1961.<sup>61</sup> Arweiniodd hyn at ffurfio Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ac ymgyrch anufudd-dod sifil, ysgrifennu enwau Cymraeg ar arwyddion ffyrdd Saesneg, difrodi mastiau teledu ac amharu ar stiwdios oedd yn darlledu rhaglenni Saesneg eu hiaith yn hytrach na rhaglenni Cymraeg.

<sup>57</sup> Richard Weight, *Patriots: National Identity in Britain 1940–2000* (Llundain, 2013), tudalen 403.

<sup>58</sup> O dudalen 268 *Wales Since 1939* gan Martin Johnes cyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Manceinion 2012 ISBN 9780719086670

<sup>59</sup> Gellir lawrlwytho copi union o bamffled 1964 Gwynfor Evans am yr angen am gynllunio o Gymru'n unig o <http://www.hanesplaidcymru.org/download/llyfrynnau/1964%20Wales%20the%20Next%20Step.pdf>

<sup>60</sup> Richard Weight, *Patriots: National Identity in Britain 1940–2000* (Llundain, 2013), tudalen 278

<sup>61</sup> Mae'r ystadegau o <http://goo.gl/ylq5Hb>

## FFOCWS : isetholiad Caerfyrddin 1966

**TABL : Canlyniad etholiad cyffredinol 1966 ar gyfer Caerfyrddin<sup>62</sup>**

Plaid	Ymgeisydd	Pleidleisiau	%
Llafur	Megan Lloyd George	21,221	46.17
Rhyddfrydol	D.H. Davies	11,988	26.08
Plaid Cymru	Gwynfor Evans	7,416	16.13
Ceidwadwyr	Simon Day	5,338	11.61
Mwyafrif Llafur: 9,233			

**TABL : Canlyniad isetholiad 1966 ar gyfer Caerfyrddin<sup>63</sup>**

Plaid	Ymgeisydd	Pleidleisiau	%
Plaid Cymru	Gwynfor Evans	16,179	38.98
Llafur	Gwilym Prys-Davies	13,743	33.11
Rhyddfrydol	Hywel Williams	8,650	20.84
Ceidwadwyr	Simon Day	2,934	7.09
Mwyafrif Plaid Cymru: 2,436			

Daeth y cyfle gwleidyddol o'r diwedd pan enillodd arweinydd Plaid Cymru, Gwynfor Evans, isetholiad yng Nghaerfyrddin yng Ngorffennaf 1966 a gafodd ei alw'n sydyn ar ôl i'r ymgeisydd Llafur buddugol yn etholiad cyffredinol 1966 farw ar ôl dau fis yn unig. Roedd nifer o resymau am hyn - dicter tuag at streiciau a chau pyllau, amheuaeth ynglŷn ag argyfwng economaidd cenedlaethol, diffyg ymgeisydd Llafur credadwy ynghyd a phryderon am effaith y Dreth Gyflogaeth Ddethol ar fusnesau gwledig a pholisïau cynghorau sir o dan arweiniad Llafur tuag at ysgolion gwledig<sup>64</sup>. Roedd Plaid yn golygu dewis arall; heb fod yn Geidwadol. Yn ei araith wedi'r fuddugoliaeth dywedodd Evans, "Cymerwyd camau bras ymlaen tuag at adfer urddas a hunan-barch hen genedl a oedd wedi anghofio sefyll ar ei thraed ei hun....Fydd pethau fyth yr un peth yng Nghymru."<sup>65</sup> Roedd yn siomedig gan na roddwyd caniatâd iddo dyngu ei lw fel AS yn Gymraeg<sup>66</sup>.

Dros y blynyddoedd nesaf daeth Plaid Cymru'n agos iawn at ennill ardaloedd oedd yn cefnogi Llafur fel y Rhondda, lle cafwyd gogwydd o 30% o Lafur i'r Blaid, ac yng Nghaerffili lle cafwyd gogwydd o 40% o Lafur i'r Blaid. Etholiad 1970 oedd y tro cyntaf i'r Blaid ymgeisio am holl seddi Cymru a derbyn dros 175,000 o bleidleisiau<sup>67</sup>. Daeth y blaid yn fygythiad difrifol i Lafur nid yn yr ardaloedd gwledig Cymraeg eu hiaith yn unig ond yn ne diwydiannol Cymru yn ogystal.

<sup>62</sup> O dudalen 16 Cymru 1900 hyd heddiw gan Harri Jones a Colin Hughes cyhoeddwyd gan CAA yn 2014 ISBN9781845215279

<sup>63</sup> O dudalen 16 Cymru 1900 hyd heddiw gan Harri Jones a Colin Hughes cyhoeddwyd gan CAA yn 2014 ISBN9781845215279

<sup>64</sup> O dudalen 386 *Wales 1880 to 1980* gan Kenneth O Morgan published by Oxford in 1982 ISBN 978780198217602

<sup>65</sup> Gellir clywed recordiad llais o Gwynfor Evans yn siarad am sut y medrai'r isetholiad ysbrydoli Cymru yn [https://www.youtube.com/watch?v=\\_ms6JFJqpU0](https://www.youtube.com/watch?v=_ms6JFJqpU0); Enillwyd y sedd yn ôl gan Lafur yn etholiad 1970 ond ei cholli eto i Blaid Cymru yn 1974 a gellir gweld hyn ar ffilm yn <https://www.youtube.com/watch?v=G9uLstkeYrs>

<sup>66</sup> Gellir gweld llun o Gwynfor Evans yn cyrraedd y Senedd yn <http://www.open.edu/openlearn/history-the-arts/history/heritage/welsh-history-and-its-sources/content-section-7.8#>

<sup>67</sup> O dudalen 16 *Wales 1900 to the present day* gan Harri Jones a Colin Hughes cyhoeddwyd gan CAA yn 2014 ISBN 9781845215279

Cafwyd rhai troeon anffodus. Yn 1970 collodd Gwynfor Evans ei sedd yn yr etholiad cyffredinol. Mynegodd ambell AS ragfarn yn erbyn y cenedlaetholwyr - dywedodd Leo Abse AS Pontypwl fod Plaid Cymru'n cynrychioli "cenedlaetholdeb direswm, gwancus .....cwrs ac ymosodol", ac yn "Mab jumbo cenedlaetholdeb cyntefig"; gwelodd yr AS ifanc Llafur Neil Kinnock hwy'n mynd a sylw oddi wrth y gwir faterion, ac fel "ffanatigaid Derwyddon gofidus"<sup>68</sup>.

Serch hynny enillodd Plaid Cymru ddwy sedd yn etholiad cyffredinol 1974 - Dafydd Wigley yng Nghaernarfon a Dafydd Elis-Thomas ym Meirionnydd - ac yn Hydref 1974 ychwanegwyd Gwynfor Evans yng Nghaerfyrddin eto. Yn etholiadau lleol 1976 dechreuodd Plaid Cymru wneud ychydig o gynnydd, gan ennill rheolaeth dros Gyngor Merthyr Tudful ac Ardal Rhymni yng Ngwent.<sup>69</sup>

Mewn rhai ffyrdd roedd Plaid Cymru wedi elwa ar ddirywiad y Blaid Ryddfrydol oedd â 2 AS o Gymru a 5% o'r bleidlais erbyn diwedd y 1950au. Roedd twf Plaid Cymru yn y 1970au yn cyddaro â chefnogaeth gynyddol ar gyfer y Rhyddfrydwyr a'r Ceidwadwyr yng Nghymru ac am y tro cyntaf ers yr Ail Ryfel Byd roedd Llafur yn gallu dibynnu ar lai na hanner pleidleisiau Cymru mewn etholiadau cyffredinol. Canlyniad hyn oedd i'r llywodraeth Lafur o 1974 ddibynnu'n gynyddol ar gefnogaeth y cenedlaetholwyr Cymreig ac Albanaid i basio deddfau yn y Senedd. Parhaodd Llafur i weithredu er mwyn sicrhau cefnogaeth y cenedlaetholwyr Cymreig. Er enghraifft yn araith y Frenhines ar y 1af o Dachwedd 1978, mwy o arian ar gyfer Awdurdod Datblygu Cymru, addewid am sianel deledu Gymraeg erbyn 1982 ac iawndal ar gyfer dioddefwyr silicosis (clefyd y llwch sy'n effeithio glowyr)<sup>70</sup>

### FFOCWS: refferendwm datganoli 1979

Roedd y Blaid Lafur wedi cefnogi'n gyhoeddus **datganoli** pŵer o San Steffan i'r Alban a Chymru ers 1966. Y rheswm am hyn oedd eu pryder am gefnogaeth gynyddol i'r pleidiau cenedlaethol. Dechreuodd y Comisiwn Brenhinol ar y Cyfansoddiad neu Adroddiad Kilbrandon, ar ôl y cadeirydd, weithio ar gynigion yn 1968 a chyflwynodd ei adroddiad terfynol yn Hydref 1973. Roedd pob un o'r 13 comisiynydd yn cytuno bod angen datganoli pŵer i'r rhanbarthau ond roeddent yn anghytuno am y pwerau y dylid eu rhoi i Gymru -

- roedd 2 o'r 13 comisiynydd yn meddwl y dylai'r Swyddfa Gymreig gael mwy o bŵer
- meddyliai 11 o'r 13 comisiynydd y dylai Cymru gael Cynulliad etholedig
- roedd 6 o'r 13 comisiynydd, gan gynnwys y ddau gomisiynydd Cymreig, eisiau i'r Cynulliad Cymreig gael pwerau deddfu<sup>71</sup>

Ar ôl etholiadau cyffredinol 1974 cynigiodd llywodraeth Lafur newydd Gynulliad o 80 o aelodau etholedig gweithredol i reoli gweinyddiaeth Cymru a chyllideb flynyddol o £1.5 biliwn, a oedd yn llai o bŵer na'r hyn a gynigiwyd i'r Alban, lle byddai'r llywodraeth ddatganoledig yn medru deddfu ar rai materion hefyd. Byddai'r Cynulliad wedi ei leoli yn yr hen Gyfnewidfa Lo yng Nghaerdydd. Cafodd Harold Wilson ei rybuddio gan ei Gabinet yn Ionawr 1975 fod cenedlaetholwyr yng Nghymru a'r Alban yn bygwth dyfodol Llafur, a bod datganoli yn eu rhoi "ar lethr llithrig tuag at chwalu'r DU", er bod Wilson yn gweld datganoli fel ffordd o "wanhau nerthoedd ymwahaniaeth."<sup>72</sup>

Nid oedd yn broses hawdd i gael cefnogaeth seneddol ar gyfer y ddeddf, i sicrhau y byddai hyn

<sup>68</sup> O dudalen 512 *Seasons in the Sun* gan Dominic Sandbrook cyhoeddwyd gan Penguin yn 2013 ISBN 9780141032160

<sup>69</sup> O dudalen 401 *Wales 1880 to 1980* gan Kenneth O Morgan cyhoeddwyd gan Wasg Rhydychen yn 1982 ISBN 978780198217602

<sup>70</sup> O dudalen 401 *Wales 1880 to 1980* gan Kenneth O Morgan cyhoeddwyd gan Wasg Rhydychen yn 1982 ISBN 978780198217602

<sup>71</sup> O dudalen 648 *Hanes Cymru* gan John Davies cyhoeddwyd gan Penguin yn 2007 ISBN 9780140284768

<sup>72</sup> O dudalen 521 *Seasons in the Sun* gan Dominic Sandbrook cyhoeddwyd gan Penguin yn 2013 ISBN 9780141032160

## 16 Caledi, Cyfoeth ac Anniddigrwydd 1951-1979: Rhan 3

yn digwydd gan fod gwrthwynebiad o'r Ceidwadwyr yn ogystal â rhai ASau Llafur. Dangosodd y llywodraeth Lafur ond ychydig o gefnogaeth ar gyfer y syniad er bod y Prif Weinidog, James Callaghan yn AS De Caerdydd, y Gweinidog dros Gyflogaeth Michael Foot yn AS Glyn Ebwy ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru John Morris yn AS dros Aberafan.

Dadleuai rai ASau ei fod yn mynd yn rhy bell ac yn ceisio plesio'r cenedlaetholwyr, dywedodd rai nad oedd yn mynd yn ddigon pell. Roedd eraill yn canolbwyntio ar amlygu problemau oedd yn ymwneud â Deddf Cymru ei hun - pwerau annelwig y Gweinidog Gwladol yn ogystal â diffyg peirianwaith i ddelio ag anghytundebau rhwng y Cynullïadau a San Steffan. Roedd y Ceidwadwyr yr un mor rhanedig â Llafur. Roedd y cyn arweinydd Edward Heath yn gefnogwr brwd i ddatganoli ond Mrs Thatcher yr arweinydd newydd yn elyniaethus.<sup>73</sup> Cymerodd amser hir i basio'r cyfreithiau datganoli oherwydd:<sup>74</sup>

- cynigiwyd gwelliant oedd yn nodi na fyddai'r ddeddf yn cael ei gweithredu oni bai y byddai pobl yn dangos cefnogaeth drwy **refferendwm**
- gwnaeth y llywodraeth Lafur oedd mewn trafferthion, **gytundeb** i weithio gyda'r Rhyddfrydwyr yn y Senedd yn 1977; mynnodd y Rhyddfrydwyr fod Cymru a'r Alban yn cael eu datganoli.
- er mwyn goresgyn gwrthwynebiad rhannwyd y ddeddf datganoli yn ddwy ddeddf wahanol, un ar gyfer Yr Alban ac un ar gyfer Cymru.
- amlygodd AS Llafur o'r Alban o'r enw Tam Dalyell bryder mawr am y newidiadau arfaethedig a galwodd hyn yn "West Lothian question" - oedd hi'n iawn i'w etholwyr yn Yr Alban fedru pleidleisio ar faterion oedd yn effeithio ar Loegr, ond doedd ASau o Loegr ddim yn gallu pleidleisio ar faterion oedd yn effeithio ar Yr Alban?
- roedd gwelliant arall yn dweud bod angen dim ond 40% o'r **etholwyr** (y rhai oedd yn gallu pleidleisio) yn hytrach na 50% o'r bobl oedd yn pleidleisio i sicrhau gweithredu'r deddfau.

Roedd polau piniwn y 1960au yn awgrymu y byddai 60% o etholwyr Cymru yn hoffi Cynullïad Cymreig. Darganfu Comisiwn Brenhinol y Cyfansoddiad fod 64% o bobl Cymru'n meddwl byddai Cymru'n cael ei rheoli'n fwy effeithiol pe bai ganddi lais, 30% yn meddwl y byddai'n waeth. Ond doedd byth mwy na 10% o gefnogaeth ar gyfer annibyniaeth Gymreig. Dangosodd pŵl piniwn yn Mai 1978 fod 41% o etholwyr Cymru'n ffafrio'r syniad o Gynullïad ond gohiriwyd y refferendwm o ddiwedd haf 1978 hyd Dydd Gŵyl Dewi 1979. Yn anffodus bu helyntion gwleidyddol Gaeaf yr Anniddigrwydd rhwng y ddau.

Dechreuodd yr ymgyrch "Ie dros Gymru" yn wael wrth i arweinydd undeb llafur Cymreig pwysig wrthod rhannu llwyfan gyda Gwynfor Evans. Bu'n rhaid i Blaid Cymru ymgymryd â holl waith yr ymgyrch IE, tra bod yr ymgyrch NA yn cynnwys y Ceidwadwyr Cymreig, llawer o AS Llafur Cymreig, **undebau llafur**, mwyafrif cynghorau De Cymru a nawdd oddi wrth Ffederasiwn y Busnesau Bach oedd yn gwrthwynebu datganoli<sup>75</sup>. Rhagwelodd Gwynfor Evans "Pan fydd refferendwm yn dod byddwn yn colli'n drychinebus."<sup>76</sup>

Yn yr ardaloedd gwledig roedd gwrthwynebiad i ddatganoli yn cael ei gydgordio gan y Blaid Geidwadol, ond hefyd 6 AS Llafur Cymreig - Leo Abse (Pontypwl), Neil Kinnock (Bedwellte), Donald Anderson (Dwyrain Abertawe), Fred Evans (Caerffili), Ioan Evans (Aberdâr), Ifor Davies (Gŵyr) - a oedd yn poeni y byddai'n torri ar draws ymdrechion i wella bywydau pobl dosbarth gweithiol ar draws y DU ac y byddai cynullïadau datganoledig yn golygu gormod o lywodraeth ar

<sup>73</sup> O dudalen 395 *Wales 1880 to 1980* gan Kenneth O Morgan cyhoeddwyd gan wasg Rhydychen yn 1982 ISBN 978780198217602

<sup>74</sup> O dudalen 648 *Hanes Cymru* gan John Davies cyhoeddwyd gan Penguin in 2007 ISBN 9780140284768

<sup>75</sup> O dudalen 767 *Seasons in the Sun* gan Dominic Sandbrook cyhoeddwyd gan Penguin yn 2013 ISBN 9780141032160

<sup>76</sup> O dudalen 521 *Seasons in the Sun* gan Dominic Sandbrook cyhoeddwyd gan Penguin yn 2013 ISBN 9780141032160



## 17 Caledi, Cyfoeth ac Anniddigrwydd 1951-1979: Rhan 3

gyfer Cymru a'r Alban gan fod cynulliad yn cael ei gynnig ar gyfer Lloegr<sup>77</sup>. Roedd pryderon hefyd am densiynau rhwng siaradwyr Cymraeg a'r di-gymraeg. Roedd rhai AS Seisnig yn gwrthwynebu gan eu bod yn poeni y byddai datganoli'n tynnu arian i ffwrdd o'u hardaloedd hwy.

Yn ogystal roedd gwrthwynebiad i ddatganoli ar sail cost. Dywedodd yr AS Llafur Neil Kinnock yn 1976 y byddai £12 miliwn cost rhedeg y Cynulliad Cymreig arfaethedig yn talu am 4 ysbyty, 10 ysgol gyfun, 10 milltir o draffordd neu 2 sianel deledu Gymraeg. Siaradodd AS Llafur arall, Leo Abse, am "bot mêl gorlawn" y gweinyddwyr cyflogedig newydd. Manteisiai'r ddau ar ddweud y byddai'n arwain at elîd o siaradwyr Cymraeg. Roedd Plaid Cymru wedi penderfynu cefnogi datganoli ond penderfynodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ei wrthwynebu am nad oedd yr awgrymiadau ar gyfer y Cynulliad yn darparu ar gyfer yr iaith Gymraeg.

Rhybuddiodd Saunders Lewis, un o sylfaenwyr Plaid Cymru, mewn llythyr a gyhoeddwyd ychydig ddyddiau cyn y refferendwm yn y *Western Mail*, pe na bai NA yn ennill "Bydd etholiad cyffredinol yn dilyn. Gallai fod newid llywodraeth. Tasg gyntaf Llywodraeth San Steffan fydd i leihau a meistroli chwyddiant. Yng Nghymru mae yna byllau glo sy'n gweithio ar golled; mae yna weithfeydd dur sy'n cael eu hystyried yn ddiangen; mae yna ddyffrynnoedd sy'n gyfleus i'w boddi. Ac ni fydd amddiffynfa Gymreig."<sup>78</sup>

### Canlyniad refferendwm 1979 ar gyfer Cymru<sup>79</sup>

	% o etholwyr
Pleidlais "IE"	11.9
Pleidlais "NA"	46.9
Heb bleidleisio	41.2
le	243,048 o bleidleisiau
Na	956,330 o bleidleisiau
Papurau pleidleisio a wrthodwyd	3,309
Yr etholwyr	2,038,049
Y ganran sy'n pleidleisio	58.8%

Roedd llai nag 20% o'r rhai bleidleisiodd yn y refferendwm yng Nghymru wedi pleidleisio "le" a chafwyd rhai amrywiadau rhanbarthol – roedd 1 o bob 2 yng Ngwynedd wedi pleidleisio "Na" tra bod 9 o bob 10 wedi pleidleisio "Na" yng Nghlwyd<sup>80</sup>. Roedd Gwynfor Evans mor sicr o'r canlyniad fel iddo gyfaddef methiant cyn i'r pleidleisiau gael eu cyfri.

### Rhesymau am fethiant refferendwm datganoli 1979<sup>81</sup>

- Roedd pryderon y byddai llywodraeth y DU yn colli diddordeb o safbwynt helpu tyfiant a goroesiad economi Cymru mewn amseroedd anodd
- Roedd gan lawer o bobl bryderon am gost bellach haenau ychwanegol llywodraeth leol
- Manteisiai'r gwrthwynebwyr ar ofnau pobl ynglŷn ag anonestrwydd, ffrindgarwch ac elitaeth Gymraeg yn ogystal â'r rhanriad de/gogledd Cymru

<sup>77</sup> O dudalen 648 *A History of Wales* gan John Davies cyhoeddwyd gan Penguin yn 2007 ISBN 9780140284651

<sup>78</sup> O dudalen 652 *A History of Wales* gan John Davies cyhoeddwyd gan Penguin yn 2007 ISBN 9780140284651

<sup>79</sup> O dudalen 26 *Wales 1900 to the present day* by Harri Jones a Colin Hughes cyhoeddwyd gan CAA yn 2014 ISBN 9781845215279

<sup>80</sup> O dudalen 767 *Seasons in the Sun* gan Dominic Sandbrook cyhoeddwyd gan Penguin yn 2013 ISBN 9780141032160

<sup>81</sup> O *A History of Wales 1906-2000* gan D. Gareth Evans cyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Cymru yn 2000 ISBN 9780708315941

## 18 Caledi, Cyfoeth ac Anniddigrwydd 1951-1979: Rhan 3

- Doedd dim papur newydd Cymru-gyfan i gyflwyno'r safbwynt "le" o gymharu â phapurau dyddiol y DU o blaid yr undeb ( gweler "Sut y cyflwynodd y cyfryngau'r ymgyrch ddatganoli" isod)
- Amhoblogrwydd y llywodraeth Lafur ar ôl tarfiadau a gofidiau Gaeaf yr Anniddigrwydd; gwelai rhai pobl bleidlais y refferendwm fel pleidlais brotest yn erbyn Llafur
- Roedd llawer o ddifaterwch o safbwynt y dadleuon gan fod nifer yn credu na fyddai datganoli'n gwneud unrhyw wahaniaeth
- Roedd yn cael ei ddarlunio fel y 'llwybr llithrig' tuag at annibyniaeth lawn.

Sut y cyflwynodd y cyfryngau'r ymgyrch ddatganoli<sup>82</sup> -

- Cefnogwr cymedrol i ddatganoli oedd y Western Mail, yn gweld y mater yn cysylltu â democratiaeth ac atebolrwydd, nid iaith ac ymwahaniad
- Defnyddia'r South Wales Echo dactegau braw fel codi ofnau ynglŷn ag eithrio Cymru o'r Undeb
- Roedd y Daily Post yn manteisio ar densiynau Gogledd-De
- Roedd papurau Llundain fel y Sun a'r Mirror, a ddarllenwyd yn eang, prin yn sôn amdano
- Doedd y BBC ac ITV ddim yn darlledu rhaglenni am ddatganoli ar drosglwyddyddion Seisnig a hyn yn colli 35% o'r gynulleidfa deledu Gymreig.

Sylw prin a roddwyd i Gymru gan bapurau poblogaidd y DU fel y Sun a'r Mirror a werthai ¼ miliwn o gopiâu'n ddyddiol tra bod y Western Mail (Caerdydd) a'r Daily Post (gogledd Cymru a Lerpwl) yn gwerthu 30,000 o gopiâu'r wythnos yn unig.<sup>83</sup>

- Roedd pleidlais y refferendwm yng Nghymru'n drychineb i gefnogwyr datganoli. Arweiniodd at nifer o ganlyniadau difrifol
- Helpodd ddymchwel y llywodraeth Lafur gan nad oedd cenedlaetholwyr yr Alban oedd a mwyafrif bychan o bleidleisiau (ond nid 40% o'r etholwyr) yn gallu cael y llywodraeth i symud ymlaen a datganoli; yn gyntaf cyflwynodd Plaid Genedlaethol yr Alban yna'r Ceidwadwyr gynigion o ddiffyg hyder yn y llywodraeth a derbyniwyd rhain o 311 o bleidleisiau i 310 ar yr 28in o Fawrth 1979 er i dri AS Plaid roi eu pleidlais i Lafur
- Yn maniffesto Plaid Cymru "Dyfodol i Gymru" ni phwysleisiwyd mater hunan reolaeth
- Yn etholiadau lleol 1979 collodd Plaid Merthyr yn ôl i Lafur ac yn etholiad cyffredinol 1979 collodd Gwynfor Evans ei sedd yng Nghaerfyrddin
- Yn etholiad cyffredinol 1979 enillodd y Ceidwadwyr 35% o'r bleidlais yng Nghymru ac etholwyd Ceidwadwyr Mrs Thatcher i ffurfio llywodraeth<sup>84</sup>.

<sup>82</sup> O dudalen 295 *Wales Since 1939* gan Martin Johnes cyhoeddwyd gan Wasg Prifysgol Manceinion yn 2012 ISBN 9780719086670

<sup>83</sup> O dudalen 231 *The People of Wales* golygydd gan Gareth Elwyn Jones a Dai Smith cyhoeddwyd gan Gomer yn 2000 ISBN 9781859027431

<sup>84</sup> O dudalen 405 *Wales 1880 to 1980* gan Kenneth O Morgan cyhoeddwyd gan Wasg Rhydychen yn 1982 ISBN 978780198217602

## Anawsterau Economaidd

Roedd y DU wedi bod mewn sefyllfa economaidd gryf ar ddechrau'r 1950au, ond erbyn yr 1970au, roedd y DU yn cael trafferth dal i fyny â gwledydd eraill o amgylch y byd. Roedd dwy broblem fawr a wnaeth daro economi'r DU ar yr un pryd, gan wneud yr 1970au yn ddegawd anodd i lawer o bobl.

**Tabl 3: Cyfran y DU o fasnach y byd 1950-1970**

Cyfran y DU o fasnach y byd	1950	1960	1970
	25.5%	16.5%	10.8%

PROBLEM 1: Fe wnaeth cyfran y DU o fasnach y byd ddirywio'n gyflym oherwydd y canlynol:

- Roedd y rhan fwyaf o gwmnïau'r DU wedi disgwyl dal ati i wneud eu harian o'r Ymerodraeth Brydeinig a'r **Gymanwlad**. Effeithiwyd arnynt yn wael gan broses sydyn **dadwladychu** a ddechreuodd yn y 1950au – dechreuodd marchnadoedd roedd diwydiannau'r DU yn dibynnu arnynt ddatblygu eu diwydiannau eu hunain gan ddechrau masnachu gyda'u cymdogion yn hytrach na gyda'r DU.
- Roedd cynhyrchiant diwydiannol Gorllewin yr Almaen yn Ewrop a Japan yn y Dwyrain Pell yn cynyddu, ynghyd â'u cyfran o fasnach y byd. Roedd ymaelodi â'r EEC wedi rhoi hwb mawr i ddiwydiant Gorllewin yr Almaen, Ffrainc a'r Eidal o'r dechrau, oherwydd ei fod bellach yn llawer rhatach masnachu â'i gilydd.
- Roedd y DU yn cynhyrchu pethau fel locomotifau stêm nad oedd llawer o alw amdanynt nhw. Nid oedd yn cadw ar y blaen o ran datblygiadau newydd, er enghraifft yr iardiau llongau na wnaethon nhw newid i adeiladu cynnwys longau (container ships) mawr ac archdanceri (super-tankers).
- Roedd costau cynhyrchu yn uwch yn y DU gan nad oedd diwydiannau yn moderneiddio ac yn dod yn fwy effeithlon, a oedd yn golygu bod nwyddau o wledydd eraill yn rhatach i'w prynu hyd yn oed yn y DU.
- Ni lwyddodd llawer o gwmnïau'r DU i addasu'n gyflym i'r sefyllfaoedd newidiol hyn. Erbyn yr 1970au, roedd angen cymorth gan y llywodraeth i oroesi ar gwmnïau byd-enwog o'r DU, fel Rolls Royce, hyd yn oed.

**Tabl 4: Cyfraddau twf economaidd rhwng 1950 ac 1973<sup>85</sup>**

Gwlad	Cyfradd twf economaidd 1950-1973
Y DU	3.1%
UDA	2.7%
Yr Almaen	6.0%
Ffrainc	5.1%
Japan	7.7%

**PROBLEM 2:** Dechreuodd **cynhyrchiant** y DU gwmpo y tu ôl i wledydd eraill. Rhwng yr 1950au a'r 1970au, aeth y DU o fod yn un o'r gwledydd mwyaf cynhyrchiol yn y byd i fod yn un o'r gwledydd lleiaf cynhyrchiol yn Ewrop. Er i werth economi Prydain dyfu 2% y flwyddyn rhwng 1950 ac 1970, ar gyfartaledd, roedd gwledydd eraill fel Gorllewin yr Almaen, Ffrainc a Japan yn tyfu ar gyfradd dros ddwywaith yn fwy. Gallai'r cyfraddau amrywio llawer hefyd - yn 1973 tyfodd gwerth economi'r DU 5.3%, ond flwyddyn yn ddiweddarach roedd wedi gostwng 2.5%.<sup>86</sup> Erbyn 1977 roedd cynhyrchiant y DU yn hanner cynhyrchiant Gorllewin yr Almaen a Denmarc, a dim ond yr Eidal a Gweriniaeth Iwerddon oedd â chyfradd lai yn Ewrop gyfan.<sup>87</sup> Mae nifer o resymau posibl am hyn:

- Roedd y llywodraeth yn gwario llawer ar amddiffyn a lles yn hytrach na moderneiddio diwydiant
- dulliau gweithio, peiriannau a chyfleusterau hen ffasiwn
- gweithwyr yn cael eu cadw mewn swyddi nad oedd eu hangen er mwyn osgoi codiad mewn diweithdra ac i blesio undebau llafur, e.e. awgrymodd adroddiad 1953, a oedd yn cymharu diwydiant dur y DU ag UDA, fod yna ddwy neu dair gwaith y nifer o weithwyr cyflogedig mewn dur yn y DU nag oedd eu hangen, a'u bod yn gallu gwneud mwy os oedd y gweithwyr yn hyblyg am ba swyddi y byddent yn eu gwneud, na fyddai undebau'r DU yn caniatáu.<sup>88</sup>

**PROBLEM 3:** Roedd chwyddiant yn gwneud i brisiau godi yn gyflymach na chyflogau oherwydd bod y DU yn mewnfario mwy ac yn cynhyrchu llai. Roedd pobl yn gweld y pŵer gwario roedden nhw wedi ei fwynhau yn yr 1950au a'r 1960au yn dechrau diflannu. Rhwng 1975 ac 1976, gostyngodd enillion pobl gan 18% ar gyfartaledd.<sup>89</sup> Ar yr un pryd, cododd nifer y bobl ddi-waith i dros filiwn, ac roedd cyfraddau llog cynyddol yn ei gwneud yn fwy anodd i bobl fenthyca arian. Fe wnaeth llawer o weithwyr geisio cael eu rheolwyr i godi eu cyflogau er mwyn helpu i ddatrys eu problemau. O ganlyniad i hyn, roedd llawer o weithwyr yn gwrthdaro â'r llywodraeth a oedd yn ceisio cadw cyflogau i lawr er mwyn helpu i leihau chwyddiant.

<sup>85</sup> Daw'r ffigurau o erthygl Prifysgol Warwick gan Stephen Broadberry, 'Britain's Twentieth Century Performance in International Perspective' sydd ar gael yn <http://goo.gl/zDahQS>

<sup>86</sup> Nicholas Comfort, *The Slow Death of British Industry: A Sixty-Year Suicide 1952–2012* (Biteback Publishing, 2013), tudalen 240.

<sup>87</sup> Norman Lowe, *Mastering Modern British History* (Palgrave Macmillan, 2009), tudalen 504.

<sup>88</sup> Nicholas Comfort, *The Slow Death of British Industry: A Sixty-Year Suicide 1952–2012* (Biteback Publishing, 2013), tudalen 45.

<sup>89</sup> Dominic Sandbrook, *Seasons in the Sun* (Llundain, 2012), tudalen 367.

### Aflonyddwch diwydiannol<sup>90</sup>

Collwyd chwe miliwn o ddiwrnodau gwaith oherwydd streiciau yn chwe mis cyntaf 1970,<sup>91</sup> gan gynnwys gweithio i reol gan weithwyr gorsaf bŵer a arweiniodd at nifer o doriadau pŵer. Cyflwynwyd Deddf Cysylltiadau Diwydiannol 1971 gan y llywodraeth Geidwadol a oedd newydd ei hethol er mwyn rheoli'r undebau llafur<sup>92</sup> a oedd yn cynrychioli'r gweithwyr. Roedd y Ddeddf yn ceisio gwneud yn siŵr bod undebau yn gwneud ymgais i drafod problemau cyn mynd ar streic. Ni wnaeth hyn weithio. Roedd llawer o aelodau'r undebau llafur yn gwrthwynebu hyn, ac fe wnaeth llawer o **swyddogion undeb** lleol<sup>93</sup> anwybyddu arweinwyr eu hundebau a oedd yn mynnu bod aelodau yn dilyn y rheolau newydd. Pan wnaeth y llywodraeth geisio defnyddio'r Ddeddf i atal streic dociau, a streic rheilffyrdd yn 1972, fe wnaeth yr undebau ei hanwybyddu yn gyfan gwbl.

Roedd y cyhoedd yn cefnogi rhai streiciau ar gyfer cyflogau uwch wrth i gynydd mewn chwyddiant olygu bod prisiau'n codi'n gyflym yn yr 1970au cynnar – cododd prisiau 8.6% rhwng 1970 ac 1973, ac roedden nhw'n codi 29% erbyn 1975.<sup>94</sup> Roedd prisiau'n codi oherwydd y canlynol:

- roedd gwerth dirywiol y ddoler yn UDA wedi niweidio gwerth y bunt, gan ei gwneud yn ddrud iawn i UDA fewnforio nwyddau o'r DU
- roedd pris olew bedair gwaith yn fwy yn 1973 ar ôl i OPEC, y grŵp o wledydd o'r Dwyrain Canol a oedd yn cynhyrchu y rhan fwyaf o olew'r byd, gyfyngu ar gyflenwadau mewn protest yn erbyn cefnogaeth UDA a'r DU ar gyfer Israel yn Rhyfel Yom Kippur
- roedd y nifer cynyddol o streiciau gan grwpiau gwahanol o weithwyr fel arfer yn dod i ben gyda chodiad cyflog.

<sup>90</sup> Gwefan y BBC am streiciau a blacowts y 1970au yn <http://news.bbc.co.uk/1/hi/magazine/6729683.stm> ac arolwg o hanes streiciau yn y DU gan Office of National Statistics yn <http://visual.ons.gov.uk/the-history-of-strikes-in-britain/>

<sup>91</sup> *Yesterday's Britain: The illustrated story of how we lived, worked and played in this century* (Reader's Digest, 98), tudalen 301.

<sup>92</sup> Mae'r gân '*Part of the Union*' gan *The Strawbs* o 1972 yn sôn am nifer o ffyrdd roedd undebau llafur yn ymddwyn yn y cyfnod hwn; gwylwch berfformiad *Top of the Pops* o'r gân yn <http://goo.gl/NtvGO9> a "*There is Power in a Union*" Billy Bragg yn <https://www.youtube.com/watch?v=wFgT7eQRjeI>

<sup>93</sup> Dychanwyd yr ymddygiad hwn gan swyddogion undebau yn y ffilm *I'm Alright Jack* (1959), sydd ar gael yn <https://goo.gl/eGm4Bh> ac yn y ffilm *Carry On At Your Convenience* (1971) fel sydd i'w weld yn y clip yn <http://goo.gl/Yr-cYR8>

<sup>94</sup> Liz Patheram, *Challenging History: Britain in the 20th Century* (Nelson Thomas, 2001), tudalen 321.

### FFOCWS: Streic y Glowyr 1972<sup>95</sup>

Roedd y streic hon yn ymwneud â chyflog. Nid oedd glowyr yn cael llawer o gyflog am wneud y gwaith peryglus hwn<sup>96</sup>. Cafodd y diwydiant glo ei wladoli yn yr 1940au, felly roedd yn cael ei redeg gan y Bwrdd Glo Cenedlaethol, ar ran y llywodraeth. Fe wnaeth y glowyr gyflwyno cais am godiad cyflog o 47% – roedd eu cyflogwyr wedi cynnig 8% iddyn nhw. Aeth tua 280,000 o lowyr ar streic. Achoswyd argyfwng pŵer cenedlaethol yn sgil hyn, ac yn fuan wedyn rhoddodd y llywodraeth godiad cyflog mawr i'r glowyr.

Enillodd y glowyr gan fod arweinydd glowyr Swydd Efrog, Arthur Scargill, wedi trefnu miloedd o 'bicedwyr gwib' (flying pickets) i rwystro pobl rhag symud glo i orsafoedd pŵer<sup>97</sup> ac wedi perswadio glowyr i barhau i gefnogi'r streic. Er gwaethaf nifer o wrthdrawiadau treisgar yn ymwneud â'r glowyr, fe wnaeth y cyhoedd barhau i'w cefnogi. Roedd y llywodraeth yn eithaf di-drefn hefyd. Nid oedd wedi pentyrru stoc o lo mewn gorsafoedd pŵer i fodloni'r galw cynyddol dros y gaeaf.

Arweiniodd y streic at greu Cyngres yr Undebau Llafur (TUC) Cymru. Fe danseiliwyd y cytundeb cyflog a ddaeth â streiciau 1972 i ben yn gyflym gan chwyddiant, felly mis Tachwedd 1973 cefnogodd 93% o lowyr de Cymru streic arall<sup>98</sup>. Cafwyd adroddiad gan bapur newydd y Times ar y sefyllfa o fewn y diwydiant glo ar y 10ed o Ionawr 1974. Dywedodd glöwr o'r Rhondda mewn cyfweiliad pe byddai'r Prif Weinidog Heath yn dod i ymweld â'r lofa "byddem yn mynd lawr i'r pwll a cherdded dwy filltir i'r ffas-lo, gan gyr cydu oherwydd y to isel. Byddai ei lygaid yn pigo achos y llwch a byddai'n meddwl bod ei ymennydd yn ymddatod gyda sŵn y driliau. Byddai'n ein gweld yn bwyta brechdanau a dwylo mochaidd a chlywed am doeau'n disgyn a byddai'n blino dim ond wrth edrych arnom yn cloddio am lo am saith awr, yng nghanol yr holl sŵn a'r baw. Yna mi fuaswn i'n dweud 'fasech chi'n gwneud hyn - y swydd fwyaf drewlyd ym Mhrydain - am 31 punt yr wythnos yn eich poced?'<sup>99</sup>

Achoswyd argyfwng cenedlaethol yn ystod gaeaf 1973 oherwydd gwrthwynebiad yr undebau i ymdrechion y llywodraeth i gyfyngu ar eu gweithgarwch, yn ogystal â rheoli cyflogau a phrisiau. Gan ddechrau ym mis Tachwedd 1973, dechreuodd y glowyr osod gwaharddiad ar **oramser**. Dechreuodd peirianwyr pŵer trydanol a gyrwyr trenau wneud yr un peth yn fuan wedyn. O ganlyniad, daeth yn fwyfwy anodd cynnal y cyflenwad trydan arferol, ac roedd rhai ardaloedd yn dioddef toriadau pŵer. Methiant fu'r ymdrechion i geisio cael yr undebau i ddychwelyd at amodau gweithio arferol.

Nid oedd gan y Prif Weinidog Edward Heath unrhyw ddewis ond cyhoeddi'n swyddogol bod y wlad mewn cyflwr argyfwng, oherwydd bod cyfyngiad ar gyflenwadau olew gan OPEC a gorsafoedd

<sup>95</sup> Clip o "Wales in the Seventies" am Gymru a streiciau glowyr y 1970au <http://www.bbc.co.uk/programmes/p02d-dz66>. Gellir dod o hyd i wybodaeth am lowyr Cymry yn y 1970au yn <http://www.walesonline.co.uk/news/wales-news/welsh-history-month-how-miners-1838816> ac [http://www.agor.org.uk/cwm/themes/events/1972\\_1974\\_strikes.asp](http://www.agor.org.uk/cwm/themes/events/1972_1974_strikes.asp) a lluniau i'w gweld yn <http://www.reportdigital.co.uk/gallery/1970s/1900/1920/1048/miners-strike-1972.html>

<sup>96</sup> Gellir clywed am yr anawsterau a wynebai'r glowyr yng nghân Max Boyce "Duw, it's hard" a recordiwyd yn 1974 yn <https://youtu.be/7itxshX1i4o>

<sup>97</sup> Gweler adroddiad y BBC am bicedu Canolfan Golosg Saltley yn <http://goo.gl/iRadXQ>

<sup>98</sup> O dudalen 647 Hanes Cymru gan John Davies cyhoeddwyd gan Penguin yn 2007 ISBN 9780140284651

<sup>99</sup> O dudalen 252 *Wales Since 1939* gan Martin Johnes cyhoeddwyd gan Wasg Rhydychen yn 2012 ISBN 9780719086670

pŵer heb lawer o lo. Fe wnaeth Heath orfodi Wythnos Dridiau<sup>100</sup> ar y DU o 31 Rhagfyr 1973 ymlaen. Roedd hyn yn golygu y byddai trydan yn cael ei ddarparu i fusnesau am dri diwrnod penodol yn unig bob wythnos. Roedd hyn yn cyfyngu ar ba mor hir roedd busnesau'n gallu bod ar agor, a faint y byddai gweithwyr yn gallu ennill. Byddai unrhyw fusnesau a oedd yn torri'r rheolau hyn yn cael dirwy, a gallai eu perchenogion wynebu cyfnod yn y carchar. Nid oedd y cyfyngiadau yn berthnasol i siopau a oedd yn gwerthu bwyd. Yn eironig, roedd busnesau'r DU yn cynhyrchu cymaint mewn wythnos dridiau â mewn wythnos pum niwrnod.

Cyflwynwyd mesurau eraill hefyd. Torrwyd y pŵer i dai pobl, gyda rhanbarthau gwahanol yn wynebu toriadau ar amseroedd gwahanol o'r dydd, ar raglen dreigl. Gorchmynnwyd darllediadau teledu i ddod i ben am 10.30 fin nos, ond cafwyd cynnydd mawr yng nghynulleidfaoedd rhaglenni radio yn hwyr yn y nos. Nid oedd yn bosibl defnyddio llifoleuadau mewn digwyddiadau chwaraeon, a chafodd goleuadau stryd eu diffodd. Er mwyn lleihau'r defnydd o danwydd, cyflwynwyd cyfyngiad cyflymder o 50 milltir yr awr, a wnaeth arwain at leihad yn nifer y damweiniau ar y ffordd. Dechreuodd gorsafoedd petrol redeg allan o danwydd ac roedd ciwiau hir yn y lleoedd a oedd â thanwydd o hyd, wrth iddo gael ei rannu ymhlith cynifer o bobl â phosibl. Roedd pobl yn cael eu harestio am neidio'r ciw mewn gorsafoedd petrol neu am ddraenio petrol o geir a oedd wedi parcio.

Roedd yr undebau yn dal i wrthod cydweithio, a galwodd y glowyr am streic lawn ym mis Chwefror 1974. Galwodd Heath am etholiad cyffredinol<sup>101</sup> yn gofyn 'Pwy sy'n llywodraethu Prydain?' yn y gobaith o allu dangos bod y cyhoedd yn ei gefnogi ef yn fwy na'r undebau. Ni chafodd y canlyniad pendant roedd am ei gael. Cafodd ef ei orfodi i ymddiswyddo wrth i'r Ceidwadwyr ennill mwy o bleidleisiau ond llai o seddi na'r Blaid Lafur. Cynhaliwyd etholiad arall ym mis Hydref 1974 a wnaeth roi lleiafrif bach iawn i'r Blaid Lafur, ac yn fuan wedyn, daeth Margaret Thatcher i gymryd lle Edward Heath fel arweinydd y Blaid Geidwadol.

Tawelwyd y sefyllfa pan wnaeth y llywodraeth Lafur newydd setlo'r anghydfodau cyflog – cafodd y glowyr gynydd o 29%. Fe wnaeth y Blaid Lafur 'gontract cymdeithasol' â'r undebau a chael gwared ar ddeddf 1972 a oedd yn cyfyngu ar weithgarwch yr undebau. Roedd y contract hwn yn gyfnewid am addewid o geisiadau am godiad cyflog o 5% neu lai. Wrth i arweinydd y Blaid Lafur, Harold Wilson, ymddeol yn 1975, daeth James Callaghan i gymryd ei le. Cafodd Canghellor y Trysorlys, Dennis Healey, y dasg o geisio gwella'r sefyllfa economaidd er mwyn dileu'r angen am streiciau cyflog. Ceisiodd reoli chwyddiant trwy leihau gwariant y llywodraeth a chodi trethi. Llwyddodd hyn i leihau chwyddiant, ond ni wnaeth gynyddu hyder y cyhoedd yn y llywodraeth. Fe wnaeth y Blaid Lafur golli dau isetholiad a cholli ei mwyafrif yn Nhŷ'r Cyffredin. Ym mis Mawrth 1977, tarodd Callaghan fargen â David Steel, arweinydd y Rhyddfrydwyr, er mwyn sicrhau cefnogaeth y tri ar ddeg o ASau Rhyddfrydol. Llwyddodd hefyd i sicrhau cefnogaeth ASau cenedlaetholgar o'r Alban ac o Gymru trwy gynnig pleidlais ar ddatganoli iddyn nhw.

Dechreuodd y sefyllfa wella. Roedd y dirwasgiad economaidd byd-eang wedi dod i ben, roedd sefyllfa ariannol y llywodraeth yn gwella ac roedd undebau llafur yn cadw at derfyn o 10% ar godiadau cyflog. Roedd diweithdra yn dal i fod yn uchel, ac roedd yn codi o hyd. Fodd bynnag, roedd optimistiaeth y byddai'r sefyllfa'n gwella ac roedd y cyhoedd yn dechrau cefnogi'r Blaid Lafur unwaith eto. Penderfynodd Callaghan beidio â chynnal etholiad cyffredinol tan 1979, oherwydd ei fod yn credu y byddai'r economi'n parhau i wella, ac y byddai'r Blaid Lafur yn ennill mwy o gefnogaeth.

<sup>100</sup> Gwylwch Edward Heath yn cyhoeddi'r mesurau hyn yn <http://goo.gl/Y9Vg9O> a gweler cyfres o ffotograffau yn dangos effaith hyn yn <http://goo.gl/uV11jX>

<sup>101</sup> Gellir gwyllo darllediad Etholiad 1974 y Ceidwadwyr yn <http://goo.gl/ziAJgq>

Roedd yr undebau llafur yn gweld pethau'n wahanol. Trwy dderbyn terfynau codiad cyflog y llywodraeth, roedden nhw'n credu eu bod yn bradychu eu haelodau, ac roedd llawer o'u haelodau'n dioddef caledi oherwydd polisïau gwrth-chwyddiant y llywodraeth. Yn ystod Hydref 1978, aeth gweithwyr ceir Ford ar streic a chael codiad cyflog o 15%. Ym mis Rhagfyr 1978, pleidleisiodd Tŷ'r Cyffredin yn erbyn cynllun y llywodraeth i gosbi cyflogwyr a oedd yn torri'r terfyn o 5% y cytunwyd arno ar gyfer codiadau cyflog. Arweiniodd hyn at y posibilrwydd o lawer o streiciau yn mynnu codiadau cyflog uchel. Wrth i brisiau godi'n uwch ac yn uwch gyda chwyddiant yn yr 1970au hwyr, roedd faint o arian roedd gweithwyr yn mynd ag ef adref yn mynd yn llai ac yn llai trwy'r amser.

Aeth gyrwyr lori ar streic gan fynnu codiad cyflog o 30% ym mis Ionawr 1979, gan arwain at brinder petrol. Roedd Undeb Cenedlaethol y Gweithwyr Cyhoeddus (NUPE: National Union of Public Employees), a oedd yn cynrychioli'r gweithwyr llywodraeth leol a oedd ar y cyflogau isaf, yn mynnu codiad cyflog o 40%. Arweiniodd hyn at ginio ysgol yn peidio â chael ei weini, sbwriel yn pentyrru ar y strydoedd, ac mewn rhai achosion eithafol, cyrff yn peidio â chael eu claddu. Ymunwyd â nhw gan Gydffederasiwn y Gweithwyr Gwasanaeth Iechyd (COHSE: Confederation of Health Service Employees), yr Undeb Trafnidiaeth a Gweithwyr Cyffredinol (TGWU: Transport and General Workers Union) ac Undeb y Gweithwyr Cyffredinol a Threfol (GMWU: General and Municipal Workers Union) mewn streic fwy cyffredinol am well tâl ar gyfer gweithwyr yn y sector cyhoeddus<sup>102</sup> ar ôl gweld grwpiau fel y glowyr a gweithwyr ceir Ford yn cael codiadau cyflog mawr. Aeth gyrwyr ambiwlans ar streic ac mewn dinasoedd fel Caerdydd fe wrthodon nhw ymateb i alwadau brys 999. Yn yr ardaloedd hyn, gofynnwyd i'r Fyddin i ddarparu gwasanaeth ambiwlans sylfaenol<sup>103</sup>.

Cyfeiriwyd at y gyfres hon o streiciau a oedd yn effeithio ar fywydau dyddiol bron pawb yn y DU yn 'Aeaf yr Anniddigrwydd'<sup>104</sup>. Rhwng mis Tachwedd 1978 a mis Mawrth 1979, collwyd cyfanswm o 30 miliwn diwrnod gwaith. Dyna'r streic fwyaf ers Streic Fawr 1926, ac nid oes streic mor fawr wedi bod ers hynny.<sup>105</sup> Ar 22 Ionawr 1979, fe wnaeth 1.5 miliwn o weithwyr sector cyhoeddus wrthod gweithio - y nifer mwyaf o streicwyr mewn diwrnod yn ystod y gaeaf hwnnw a'r nifer mwyaf o weithwyr ar streic gyda'i gilydd ers Streic Fawr 1926.<sup>106</sup> Doedd dim patrwm na chynllunio'n rhan o'r streiciau hyn ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn answyddogol. Roedd y llywodraeth eisiau cytundebau cyflog o 5% a phrisiau'n codi 10%. Roedd gweithwyr yn gofyn am godiadau cyflog oedd tipyn uwch na hynny - roedd rhai yn ceisio digolledu'r blynyddoedd o wyllo chwyddiant yn lleihau gwerth eu cyflog, eraill dim ond am eu bod eisiau mwy o gyflog. Roedd 328,000 o weithwyr Cymru'n rhan o'r streiciau ond dangosai arolygon yn gyson yng Nghymru fod dau drydydd o'r bobl a holwyd yn credu bod gan yr undebau ormod o rym<sup>107</sup>.

<sup>102</sup> Am fwy o wybodaeth edrychwch yn <http://goo.gl/nJp8HG>

<sup>103</sup> O [https://en.wikipedia.org/wiki/Winter\\_of\\_Discontent](https://en.wikipedia.org/wiki/Winter_of_Discontent)

<sup>104</sup> Sioe sleidiau sain/gweledol 'Gaeaf yr Anniddigrwydd' yn <http://news.bbc.co.uk/1/hi/business/7598647.stm> a gellir lawrlwytho adroddiad byr llygad dyst am Aeaf yr Anniddigrwydd a glywyd ar Radio 4 y BBC o <http://www.bbc.co.uk/programmes/p00lrk9c>

<sup>105+106</sup> Andy Beckett, *When the Lights Went Out: What Really Happened to Britain in the Seventies* (Llundain, 2009), tudalen 465.

<sup>107</sup> O dudalen 252 *Wales Since 1939* gan Martin Johnes cyhoeddwyd gan Wasg Rhydychen yn 2012 ISBN 9780719086670





**Ffynhonnell 5:** Sbwriel heb ei gasglu yn pentyrru ar y stryd wrth i ddynion sbwriel fynd ar streic yn ystod 'Gaeaf yr Anniddigrwydd'

Roedd canlyniadau annisgwyl i'r streiciau hyn weithiau. Er enghraifft, aeth gyrwyr lori ar streic gan hawlio codiad cyflog o 22%, ac fe wnaeth picedwyr rwystro dosbarthu deunyddiau i wneud y gwrthfotig penisilin, a rhwystro'r cyflenwad o waed ar gyfer trallwysyadau. Canfu Bill Rodgers, y Gweinidog Cludiant, nad oedd y meddyginiaethau roedd eu hangen i helpu ei fam a oedd yn marw o ganser yn gallu cyrraedd yr ysbyty.<sup>108</sup> Ar un pwynt, dim ond un orsaf betrol oedd ar agor yn Lerpwl, ac fe gododd prisiau petrol yn gyflym o 75c y galwyn i £3 mewn gorsafodd o amgylch y DU a oedd yn dal ar agor.<sup>109</sup> Cafodd y streic hon effaith ar fywydau pobl Prydain mewn ffyrdd eraill hefyd, gan nad oedd clorin yn cael ei gludo i ffatrioedd puro dŵr i wneud glanhawyr dŵr yfed, ac nid oedd nwy propan yn cael ei gludo i'r rheilffyrdd ei ddefnyddio i doddi iâ ar y traciau yn ystod y gaeaf oeraf yn y DU ers 1963. Dechreuodd nifer o bobl nad oedd yn streicio, deimlo rhwystredigaeth tuag at y rhai oedd ar streic. Er enghraifft, saethodd ffarmwr wn at streicwyr y tu allan i felin flawd yn Y Fenni gan niweidio tri ohonynt<sup>110</sup>.

Er ei fod yn gyfnod anodd, ni phrofwyd bod neb wedi marw o ganlyniad i weithgarwch yr undebau. Nid oedd prinder bwyd na dim trais ychwaith.

Fe wnaeth y Prif Weinidog James Callaghan ddychwelyd i'r DU ar ôl mynd i uwchgynhadledd ryngwladol yn Ynysoedd y Caribî. Roedd yn ymddangos nad oedd yn gwbl ymwybodol o ddifrifoldeb y sefyllfa. Dywedodd wrth newyddiadurwyr yn y maes awyr, "Dydw i ddim yn credu y byddai pobl eraill y byd yn rhannu'r farn bod anrhefn ar gynnydd yma.' Arweiniodd hyn at bennawd gwawdlyd ym mhapur newydd The Sun y diwrnod canlynol – 'Argyfwng? Pa argyfwng?'<sup>111</sup> Manteisiodd y Ceidwadwyr ar y sefyllfa hon, gan redeg ymgyrchoedd etholiadol yn beio'r llywodraeth Lafur am ei diffyg rheolaeth ar yr undebau ac am ddiweithdra cynyddol – roedd 1.3 miliwn o bobl bellach yn ddi-waith,<sup>112</sup> gan gynyddu 60% drwy'r 1970au.<sup>113</sup> Wrth ymddangos ar y rhaglen newyddion *Weekend World* ar y teledu ym mis Ionawr 1979, awgrymodd Margaret Thatcher, arweinydd y Ceidwadwyr, na ddylid caniatáu i weithwyr mewn gwasanaethau hanfodol

<sup>108</sup> Andrew Marr, *A History of Modern Britain* (Llundain, 2009), tudalen 375.

<sup>109</sup> Alwyn W. Turner, *Crisis? What crisis? Britain in the 1970s* (Aurum, 2008), tudalen 264.

<sup>110</sup> O dudalen 738 *Seasons in the Sun* gan Dominic Sandbrook cyhoeddwyd gan Penguin yn 2013 ISBN 9780141032160

<sup>111</sup> Andrew Boxer gyda Keith Lockton ac Elizabeth Sparey, *The End of Consensus: Britain 1945–90* (Essex, 2009), tudalen 161; Gellir gweld araith Calaghan yn <http://goo.gl/eTsnMG> a llun o bennawd The Sun yn <http://goo.gl/TkFMF6>

<sup>112</sup> Colin Stewart, *Edexcel GCSE History – British Political History 1945–90: Consensus and Conflict* (Edexcel, 2010), tudalen 145.

<sup>113</sup> Dominic Sandbrook, *Seasons in the Sun* (Llundain, 2012), tudalen 692.

fynd ar streic, ac y gellid lleihau neu ddileu budd-daliadau gweithwyr ar streic. Dechreuodd farn y cyhoedd droi tuag at y Ceidwadwyr.<sup>114</sup>



**Ffynhonnell 6:** Un o bosteri'r Ceidwadwyr ar gyfer etholiad 1979

### Casgliad: “Lle mae anghyngord, gadewch i ni sicrhau harmoni”

Ym mis Mawrth 1979, collodd y llywodraeth Lafur bleidlais o ymddiriedaeth yn Nhŷ'r Cyffredin - y tro cyntaf i hynny ddigwydd ers 1924. Roedd ASau cenedlaetholgar o'r Alban ac o Gymru wedi ei gadael ac wedi pleidleisio gyda'r Ceidwadwyr. Roedd gan bob un o'r brif bleidiau gwleidyddol y DU arweinwyr nad oedden nhw wedi wynebu etholiad eto - roedd James Callaghan wedi cymryd yr awenau ar ôl i Harold Wilson ymddeol, roedd Margaret Thatcher wedi cymryd lle Edward Heath fel arweinydd y Ceidwadwyr ac roedd David Steel wedi dod yn arweinydd y Blaid Ryddfrydol yn ddiweddar.

Galwyd am etholiad cyffredinol ac enillodd y Ceidwadwyr 13,697,690 o bleidleisiau, gan ennill mwyafrif clir yn Nhŷ'r Cyffredin gyda 339 o seddi. Cafodd arweinydd y Ceidwadwyr, Margaret Thatcher, ei gwahodd gan y Frenhines i ffurfio llywodraeth. Wrth gyrraedd Downing Street ar ôl ei chyfarfod gyda'r Frenhines, gwnaeth araith y tu allan i Rif 10 lle dywedodd mai ei her hi oedd dod â'r anniddigrwydd i ben a oedd wedi gwneud bywyd mor anodd yn y DU yn yr 1970au.<sup>115</sup>

Hoffwn eich atgoffa o rai o eiriau Sant Ffransis o Assisi sydd, yn fy marn i'n hynod o addas ar hyn o bryd. “Lle mae anghyngord, gadewch i ni sicrhau harmoni. Lle mae gwall, gadewch i ni sicrhau gwirionedd. Lle mae amheuaeth, gadewch i ni sicrhau ffydd. A lle mae anobaith, gadewch i ni sicrhau gobaith”. Ac i holl bobl Prydain, beth bynnag a fo eu pleidlais, gadewch i mi ddweud hyn: nawr bod yr Etholiad heibio, dewch i ni ddyfod ynghyd ac ymdrechu i wasanaethu a chryfhau'r wlad yr ydym mor falch i fod yn rhan ohoni.<sup>116</sup>

<sup>114</sup> Rhoddwyd pwyslais ar Aeaf yr Anniddigrwydd yn ystod ymgyrch etholiadol 1979 – gweler un o ddarllediadau etholiadol y Ceidwadwyr o Ebrill 1979 yn <https://www.youtube.com/watch?v=vcrO8SWZJFc>

<sup>115</sup> I gael crynodeb byr o fywyd yn y DU yn 1979, gweler yr erthygl yn coffáu 35 mlynedd ers i Margaret Thatcher ddod yn Brif Weinidog yn <http://goo.gl/oP7JuZ>

<sup>116</sup> Gallwch weld yr araith hon yn <http://goo.gl/9EKL7q> a fersiwn mwy llawn ohoni yn <http://goo.gl/2CfAS3>



**Ffynhonnell 7:** Margaret Thatcher, Arweinydd y Ceidwadwyr.

## Geirfa

<b>Mr Harold Wilson</b>	yr Arweinydd Llafur
<b>y Gymanwlad</b>	gwledydd a oedd yn aelodau o'r Ymerodraeth Brydeinig, neu a oedd wedi bod yn aelodau
<b>refferendwm</b>	pleidlais gyhoeddus ar fater penodol
<b>etholwyr</b>	pobl sy'n cael pleidleisio
<b>arwisgo</b>	coroni
<b>Cytundeb Llafur-Rhyddfrydol datganoli</b>	ASau Rhyddfrydol a Llafur yn gweithio gyda'i gilydd cymryd pwerau o'r llywodraeth ganolog yn Llundain a'u rhoi i lywodraethau rhanbarthol
<b>paramilwrol</b>	grwpiau yn ymddwyn fel byddin
<b>dadwladychu</b>	gwledydd yn yr Ymerodraeth Brydeinig yn ennill eu hannibyniaeth
<b>cynhyrchiant</b>	faint sy'n cael ei wneud gan bob person sy'n gweithio mewn diwydiant
<b>undebau llafur</b>	sefydliadau oedd yn edrych ar ôl lles a buddiannau'r gweithwyr o fewn busnes neilltuol
<b>swyddogion undeb</b>	swyddogion lleol yr undeb
<b>picedwyr gwib</b>	grwpiau symudol o weithwyr ar streic
<b>goramser</b>	gweithio mwy na'r oriau arferol

### Deunydd wedi'i argymhell

*Andrew Marr's History of Modern Britain*: pennod 3 'Paradise Lost' cyfres

Dominic Sandbrook:

*Strange Days: Cold War Britain*: pennod 1 'Red Dawn' a phennod 2 'The Looking Glass War' (BBC)

The 70s (BBC)

*Executed – The Last Days of Capital Punishment* (ITV)

### Cydnabyddiaethau

Ffynhonnell 1: © Trinity Mirror / Mirrorpix / Alamy Stock Photo

Ffynhonnell 2: © Llyfrgell Genedlaethol Cymru, <http://bit.ly/2j5ZxKf>

Ffynhonnell 3: © Keystone-France / Getty Images

Ffynhonnell 4: © Trinity Mirror / Mirrorpix / Alamy Stock Photo

Ffynhonnell 5: © Rex Features

Ffynhonnell 6: © The Conservative Party Archive / Getty Images

Ffynhonnell 7: © Tim Graham / Alamy Stock Photo

Mae'r adnodd hwn wedi'i ddarparu i gefnogi'r broses o addysgu a dysgu TGAU Hanes. Mae'r deunyddiau'n rhoi cyflwyniad i'r prif agweddau ar hanes y cyfnod a dylid eu defnyddio ar y cyd ag adnoddau eraill yn ogystal ag addysgu cadarn yn yr ystafell ddosbarth.

Gellir cael mynediad i rai lluniau wrth ddefnyddio'r adnodd ar-lein yn unig.